



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Datblygu ein Cynllun Corfforaethol – sut rydym wedi gwrando ar eich sylwadau ac wedi eu defnyddio

Crynodeb o'r ymatebion i'n hymgyngoriad
cyhoeddus 'Cynllunio ein dyfodol', a gynhaliwyd
rhwng 4 Tachwedd 2013 a 10 Ionawr 2014

Ebrill 2014

Cynnwys

Cyflwyniad	3
Pwy a ymatebodd i'n hymgyngoriad?	3
Sut rydym wedi dadansoddi'r ymatebion	3
Canlyniadau a chrynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau	3
Ein Diben (Cwestiwn 1)	3
Cwestiwn 1 A yw'n diben, rolau, canlyniadau cyffredin a chyllid yn glir ac yn ddealladwy?	3
Sut y byddwn yn cydweithio (Cwestiynau 2,6,9,12,15, 17).....	3
Cwestiwn 2 A hoffech weithio gyda ni mewn unrhyw ffordd i gyflawni'r canlyniadau cyffredin hyn?	3
Cwestiynau 6,9,12,15 Sut gallwn ni weithio orau mewn partneriaeth â chi i gyflawni'r rhain?.....	3
Cwestiwn 17 Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws i chi weithio gyda ni?.....	3
Syniadau newydd o ran cyllid	3
Cwestiwn 3. A oes gennych chi unrhyw syniadau ar gyfer ffyrdd newydd o ariannu ein gweithgareddau gyda'n partneriaid?.....	3
Rhaglen Amgylchedd Da (Cwestiynau 4 a 5).....	3
Cwestiwn 4 A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a sut rydym yn awgrymu eu cyflawni? 3	
Cwestiwn 5 A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?	3
Rhaglen Da i Bobl (Cwestiynau 7 ac 8).....	3
Cwestiwn 7 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffordd rydym yn awgrymu eu cyflawni?.....	3
Cwestiwn 8 – A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?.....	3
Rhaglen Da i Fusnes (Cwestiynau 10 ac 11)	3
Cwestiwn 10 A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffordd rydym yn awgrymu eu cyflawni?.....	3
Cwestiwn 11 A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?	3
Rhaglen Gwybodaeth Dda (Cwestiynau 13 a 14)	3
Cwestiwn 13 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffordd rydym yn awgrymu eu cyflawni?.....	3
Cwestiwn 14 – A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?.....	3
Datblygu ein sefydliad (Cwestiwn 16).....	3
Cwestiwn 16 A ydych chi'n cytuno â sut rydym ni'n bwriadu datblygu ein sefydliad? ...	3
Adrodd ar ba mor dda rydym yn cyflawni ein gwaith (Cwestiynau 18,19, 20)	3
Cwestiwn 18. Ai dyma'r ffordd gywir o asesu ein gwaith cyflawni?.....	3
Cwestiwn 19. A wyddoch am ddangosyddion penodol y dylem eu holrhain?	3

Cwestiwn 20. Beth fydd yn cyfrif fel llwyddiant?.....	3
Sylwadau eraill (Cwestiwn 21)	3
Cwestiwn 21 A hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach?	3
I gloi.....	3
Atodiad 1 – Rhestr o’r ymatebwyr	3
Atodiad 2 – Y ddogfen ymgynghori a’r ffurflen ymateb	3

Cyflwyniad

Corff a Noddir gan Lywodraeth Cymru yw Cyfoeth Naturiol Cymru. Cafodd ei lansio ym mis Ebrill 2013, ac mae'n ymgymryd â swyddogaethau Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru, Comisiwn Coedwigaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru gynt, yn ogystal â rhai o swyddogaethau Llywodraeth Cymru. Yn ystod ein blwyddyn gyntaf o weithredu, rydym wedi datblygu ein Cynllun Corfforaethol cyntaf ar gyfer y cyfnod hyd at ddiwedd y tymor Cynulliad hwn. Mae'r cynllun yn berthnasol o 2014 i 2017, a hynny er mwyn sicrhau bod cyfnod pontio tra byddwn yn datblygu'r cynllun nesaf yn dilyn etholiadau'r Cynulliad yn 2016.

Yn ystod ei ddatblygiad, rydym wedi ymgynghori'n eang â staff a rhanddeiliaid i'n helpu i ddatblygu ein dogfen ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd ac i gyfrannu at ein cynllun corfforaethol terfynol, a'i gryfhau:-

- Gwnaethom gynnal 10 digwyddiad i randdeiliaid mewn 7 gwahanol leoliad ledled Cymru yn ystod haf 2013, gan gynnwys tri chyfarfod a oedd yn canolbwyntio'n bennaf ar ddiwydiant rheoleiddiedig. Cynrychiolwyd 130 o sefydliadau, gan gynnwys dros 160 o unigolion. Cymerodd sefydliadau ran o'r sectorau preifat a chyhoeddus, y trydydd sector a'r sector academaidd, gan gwmpasu ystod eang o ddiddordebau – yr amgylchedd, busnes a diwydiant, coedwigaeth a ffermio, y gymuned, hamdden, dysgu ac iechyd a lles.
- Cafodd amryw o sefydliadau sy'n gweithio gyda ni eu gwahodd gan eu hunigolion cyswllt Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig neu lafar yn y cam hwn. Cafwyd 31 o ymatebion ac roedd nifer fawr yn canolbwyntio ar fioamrywiaeth.
- Gwnaethom gasglu tystiolaeth o nifer o gyfarfodydd penodol y cawsom ein gwahodd iddynt, gan gynnwys o fewn Llywodraeth Cymru, y Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd, y Fforwm Mynediad Cenedlaethol, Fforwm Rheoli Tir Cymru a'r Fforwm Llifogydd.
- Gwnaethom hefyd ymgynghori â'n staff ein hunain, gan gynnal cyfarfodydd agored mewn 20 o'n swyddfeydd yn ystod yr hydref.
- Gwnaethom gynnal wedyn yr ymarfer ffurfiol hwn ar gyfer **ymgynghori â'r cyhoedd** rhwng 4 Tachwedd 2013 a 10 Ionawr 2014. Roedd y mewnbwn yr oeddem eisoes wedi'i gael yn hynod werthfawr o ran helpu i lunio cynnwys y ddogfen ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd.

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r ymatebion i'r ymarfer ffurfiol hwn ar gyfer ymgynghori â'r cyhoedd a'r modd yr ydym wedi defnyddio'r sylwadau a gawsom. Cynhaliwyd yr ymgynghoriad â'r cyhoedd drwy gyfrwng dogfen ymgynghori a oedd yn cynnwys cyfres o gynigion ynghylch *beth* y dylem ei wneud a *sut* y dylem weithio, ac roedd 21 cwestiwn, wedi'u trefnu i 8 adran:-

- Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud – Ein diben
- Amgylchedd da

- Da i Bobl
- Da i Fusnesau
- Defnyddio Gwybodaeth Dda
- Ein sefydliad – sut rydym ni'n gweithio (*dyma a ddaeth yn rhaglen 'Sefydliad Da' yn y Cynllun Corfforaethol*)
- Sut byddwn ni'n mesur llwyddiant – adrodd ar ba mor dda rydym yn cyflawni ein gwaith
- Sylwadau ychwanegol

Mae rhestr o'r ymatebwyr i'w gweld yn Atodiad 1. Mae copi o'r ddogfen ymgynghori a'r cwestiynau cysylltiedig i'w gweld yn Atodiad 2.

Y Cynllun Corfforaethol yw'r ddogfen o'r lefel uchaf yn ein proses cynllunio strategol. Ochr yn ochr â datblygiad ein Cynllun Corfforaethol tair blynedd, rydym wedi bod yn datblygu ein Cynllun Busnes ar gyfer 2014/15. Mae'r Cynllun Busnes blynyddol yn cynnwys llawer o'r manylion na ellid eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol, a bydd y ddwy ddogfen yn cael eu cyhoeddi ar ein gwefan. Islaw'r rhain, mae gennym hefyd Gynlluniau Cyflawni gan Gyfarwyddiaethau (mae un ar gyfer pob un o'r 8 Cyfarwyddiaeth o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru ac ar gyfer ein gwaith Trawsnewid – gwneud y newidiadau sydd eu hangen i redeg ein sefydliad newydd). Bydd cynlluniau gwaith timau ac unigolion yn rhoi'r lefel uchaf o fanylder i'n gwaith.

Hoffem ddiolch i bawb a roddodd o'u hamser i ymateb i'r ymgynghoriad. Gyda'i gilydd, mae'r ymatebion yn deillio o swm anferth o syniadau a gwybodaeth gan nifer enfawr o bobl ledled Cymru a thu hwnt. Rydym wedi ymgorffori nifer o'r pwyntiau a wnaed yn rhan o'n cynllun corfforaethol, ond hoffem bwysleisio ein bod yn ystyried yr ymgynghoriad hwn yn fan cychwyn proses, yn hytrach na diwedd glo iddi. Roedd yr ymatebion yn cynnwys nifer o syniadau defnyddiol iawn, y byddwn o bosibl yn eu hystyried yn y dyfodol pan nad oedd modd i ni eu cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol presennol. Wrth i ni symud ymlaen, byddwn yn parhau i ddefnyddio'r ymatebion i'r ymgynghoriad i lywio ein gwaith, gan drosglwyddo gwybodaeth i rannau perthnasol o'r sefydliad, ac ailgysylltu â'r rhai a ymatebodd, pan fo'n briodol, er mwyn ymchwilio i ddulliau newydd o gydweithio neu i fynd ar drywydd materion a grybwyllwyd.

Pwy a ymatebodd i'n hymgyngoriad?

Cafwyd cyfanswm o 92 ymateb, a hynny gan ystod eang o sefydliadau ac unigolion (gweler y rhestr yn Atodiad 1). Wrth edrych ar nifer yr ymatebion fesul sector, mae'n bwysig edrych hefyd ar ystod yr unigolion y maent yn eu cynrychioli. Er enghraifft, yn y sector amaethyddiaeth, ni chafwyd dim ymatebion unigol ond cafwyd dau ymateb gan yr undebau ffermio, sydd, gyda'i gilydd, yn cynrychioli miloedd o ffermwyr. Mewn cyferbyniad â hynny, daeth ymatebion genweirwyr gan enweirwyr unigol, cymdeithasau pysgodfeydd lleol a chyrrff cenedlaethol.

Sector	Nifer yr ymatebion	%
Y sector cyhoeddus	16	17.4%
Y sector preifat	17	18.5%
Y trydydd sector	51	55.4%
Unigolion	8	8.7%

CYFANSWM	92	100.0%
-----------------	-----------	---------------

Maes diddordeb yr ymatebwyr:

Maes diddordeb	Nifer yr ymatebion	%
Yr Amgylchedd	11	12%
Genweirio a physgodfeydd	9	9.8%
Bioamrywiaeth	8	8.7%
Ynni	7	7.6%
Parciau cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol	7	7.6%
Cymdeithasol / cymuned	7	7.6%
Awdurdodau lleol	6	6.5%
Coedwigaeth	5	5.4%
Hamdden	5	5.4%
Treftadaeth	4	4.3%
Diwydiant	4	4.3%
Cyrff proffesiynol	4	4.3%
Daeareg	3	3.3%
Amaethyddiaeth a busnesau gwledig	3	3.3%
Cydraddoldeb ac Amrywiaeth	2	2.2%
Cyllid	2	2.2%
Iechyd	2	2.2%
Risg llifogydd	1	1.1%
Tirwedd	1	1.1%
Cyflenwad dŵr	1	1.1%
CYFANSWM	92	100%

Ymatebodd pobl mewn amryw o ffyrdd. Atebodd rhai yr holl gwestiynau, atebodd rhai ddim ond y cwestiynau hynny yr oeddent yn teimlo eu bod yn berthnasol iddynt, tra ymatebodd eraill ar ffurf llythyr cyffredinol heb ymateb i unrhyw un o'r cwestiynau yn benodol. Gwnaethom gydnabod pob ymateb pan ddaeth i law.

Sut rydym wedi dadansoddi'r ymatebion

Roedd y cwestiynau'n gofyn yn bennaf am ateb ar ffurf sylwadau ansoddol disgrifiadol. Fodd bynnag, gofynnodd rhai i'r ymatebwyr a oeddent yn cytuno â'r cynigion a wnaethom, neu'n anghytuno â hwy, ac yna i roi rhagor o fanylion.

Roedd cwestiynau'r ymgynghoriad y gellid eu hateb drwy nodi 'ydw' neu 'nac ydw', neu'r ffurf berthnasol, yn destun gwaith dadansoddi syml. Cwestiynau oedd y rhain a oedd yn gofyn 'A ydych chi'n cytuno â'n cynigion?' mewn 7 gwahanol faes o'r ymgynghoriad (Cwestiynau 1,4,7,10,13,16 a 18). Mewn gwirionedd, ni roddodd mwyafrif yr ymatebwyr ateb syml ar ffurf 'ydw' neu 'nac ydw', ac felly rydym wedi gwahanu'r ymatebion yn 4 categori:-

- **Ydw**
- **Nac ydw**
- **Cytuno'n rhannol** – Ydw, ond....

- **Ymateb arall** – pan roddodd ymatebwyr safbwyntiau a gwybodaeth bellach ond na wnaethant ateb y cwestiwn mewn gwirionedd mewn ffordd a fyddai'n perthyn i'r tri chategori blaenorol.

Mae tabl sy'n crynhoi'r ymatebion i'r cwestiynau hyn i'w weld ar ddechrau pob adran o'r adroddiad.

Rydym wedi cyflwyno'r ymatebion i'r cwestiynau fel a ganlyn:-

- Pwy ydym ni a beth rydym ni'n ei wneud – ein diben (Cwestiwn 1)
- A hoffech weithio gyda ni mewn unrhyw ffordd? / Sut gallwn ni weithio orau mewn partneriaeth? Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws gweithio gyda ni? (Cwestiynau 2,6,9,12,15,17)
- Amgylchedd Da (Cwestiynau 4,5)
- Da i Bobl (Cwestiynau 7,8)
- Da i Fusnesau (Cwestiynau 10,11)
- Gwybodaeth Dda (Cwestiynau 13,14)
- Datblygu ein sefydliad (Cwestiwn 16)
- Adrodd ar ba mor dda rydym yn cyflawni ein gwaith (Cwestiynau 18,19, 20)
- Unrhyw sylwadau pellach (Cwestiwn 21)

Mae sylwadau a materion sy'n deillio o'r ymatebion a gawsom wedi'u cyflwyno mewn testun glas.

Mae'r modd yr ydym wedi defnyddio eich sylwadau yn y Cynllun Corfforaethol wedi'i gyflwyno mewn testun du.

Canlyniadau a chrynodeb o'r ymatebion i'r cwestiynau

Ein Diben (Cwestiwn 1)

Cwestiwn 1 A yw'n diben, rolau, canlyniadau cyffredin a chyllid yn glir ac yn ddealladwy?

Atebodd 72 o 92 o ymatebwyr Gwestiwn 1 (78.3% o'r ymatebwyr).

	Ydynt	Nac ydynt	Ydynt, ond...	Ymateb arall
Nifer yr ymatebion	37	11	9	15
%	51.4%	15.3%	12.5%	20.8%

* % o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn.

Y prif faterion a grybwyllwyd a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy

Er bod mwyafrif yr ymatebwyr o'r farn bod ein diben, canlyniadau cyffredin a chyllid yn glir, roedd pryder nad oedd digon o fanylion. Rydym wedi ychwanegu manylion ychwanegol at y Cynllun Corfforaethol yn ogystal â'n Cynllun Busnes. Gan ein bod yn sefydliad ifanc, rydym yn dal i ddatblygu rhai meysydd o'n gwaith.

Yn gefnogol ond yn pryderu bod diffyg manylion a gweithredoedd yn yr ymgynghoriad

- Caiff mwy o fanylion eu cynnwys yn ein Cynllun Corfforaethol terfynol o'i gymharu â'r ddogfen ymgynghori, gan gynnwys 3 i 6 dangosydd penodol fesul rhaglen.
- Mae mwy o wybodaeth am ein cyllid wedi'i chynnwys bellach yn 'Ein Cyllid'.
- Mae adran ym mhob rhaglen sy'n nodi '[s]ut byddwn ni'n gweithio'n wahanol' a '[b]eth fyddwn ni'n gwneud llai ohono'.
- Dogfen strategol lefel uchel yw'r Cynllun Corfforaethol. Caiff lefel uwch o fanylder, gan gynnwys targedau, dangosyddion a data cyllidol ei chynnwys yn y Cynllun Busnes blynyddol sydd ar gael ar ein gwefan, yn ein Cynlluniau Cyflawni gan Gyfarwyddiaethau, ac mewn cynlluniau tîm ac unigol.
- Rydym yn fwy penodol ynghylch y gwaith y byddwn yn ei wneud a'r dangosyddion y byddwn yn eu defnyddio i wirio ein cynnydd.

Diffiniwch y termau a ddefnyddir (fel Cynaliadwyedd, Dull Ecosystemol, Twf Gwyrdd...)

- Rydym wedi datblygu Rhestr Termau a fydd yn ymddangos gyda'r Cynllun Corfforaethol.

Eglurwch y rôl o ran parciau cenedlaethol

- Rydym wedi cynnwys y gwaith o ddynodi Parciau Cenedlaethol yn un o'n swyddi a'n cyfrifoldebau yn y Cynllun Corfforaethol ac wedi cyfeirio at Barciau Cenedlaethol yn y cyflwyniad i Amgylchedd Da.

Trefniadau trawsffiniol a gweithio mewn partneriaeth â chyrrff Lloegr / y DU (yn enwedig Asiantaeth yr Amgylchedd a'r Comisiwn Coedwigaeth)

- Mae cyfeiriad penodol at waith trawsffiniol wedi'i gynnwys erbyn hyn yn adran 'Sut rydym yn gweithio a gyda phwy rydym ni'n gweithio' y Cynllun Corfforaethol. 'Rydym hefyd yn gweithio gydag eraill yng nghyd-destun y Deyrnas Unedig a'r Undeb Ewropeaidd ac yn rhyngwladol i sicrhau bod ein gwaith 'trawsffiniol' yn briodol a chydgyssylltiedig', ac mae cyfeiriad at reoleiddio wedi'i gynnwys bellach yn yr adran Fusnes.
- Mae angen i ni hefyd leihau'r graddau yr ydym yn dibynnu ar systemau'r Comisiwn Coedwigaeth ac Asiantaeth yr Amgylchedd. Mae hon yn broses sy'n parhau wrth i ni ddatblygu ein galluedd 'annibynnol' (cyfeiriad cyffredinol yn y Cynllun Corfforaethol).

Gweithio gyda Llywodraeth Cymru – ac egluro i ba raddau yr ydym yn annibynnol

- Mae gennym adran yn y Cynllun Corfforaethol o'r enw 'Sut rydym ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru'. Mae ein swyddi yn rhai ar wahân, ond rydym yn anelu at weithio ag ymdeimlad o fod yn cyd-gynhyrchu, gan gydweithio yn debyg iawn i'r modd yr hoffem weithio gyda'n partneriaid a chymunedau lleol. Rydym wedi egluro hyn yn y Cynllun Corfforaethol: 'Rydym yn Gorff a Noddir gan Lywodraeth Cymru. Mae gennym swyddogaethau sy'n annibynnol ar Lywodraeth, ac rydym yn ffurfio ein barn ein hun. Rydym hefyd yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru ac mae gennym gyfres o ganlyniadau i Gymru y cytunwyd arnynt ac yr ydym yn eu rhannu' (caiff y canlyniadau hyn a rennir eu rhestru yn y cynllun Corfforaethol).
- Un o'n swyddi allweddol yw bod yn Brif Gynghorydd i Lywodraeth Cymru.
- Cawn lythyr Cylch Gwaith gan Lywodraeth Cymru bob blwyddyn sy'n nodi'r hyn y mae angen i ni ei gyflawni, y cyfeirir ato yn y Cynllun Corfforaethol. Mae gennym hefyd Ddogfen Fframwaith 2013 (sydd ar gael ar ein gwefan) sy'n disgrifio ein dulliau o weithio gyda Llywodraeth Cymru – nid oes cyfeiriad penodol at y ddogfen hon yn y Cynllun Corfforaethol.
- Mae nifer o gyfeiriadau penodol at weithio gyda Llywodraeth Cymru ar ddarnau penodol o waith fel datblygu'r Dull Ecosystemol a'r Dull o Reoli Adnoddau Naturiol mewn Modd Integredig, ac ynghylch y broses o ddatblygu Biliau (Ymrwymadau K1, K2).

Mae Diffyg Strategaeth Economaidd

- Rydym wedi cynnwys gwybodaeth ariannol lefel uchel yn ein Cynllun Corfforaethol yn adran 'Ein Cyllid', a hefyd yr angen inni gyflawni ein targedau Achos Busnes fel y'u nodir yn adran 'Yr Achos Busnes ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru'. Rydym yn adolygu ein cynlluniau taliadau ar hyn o bryd a'n rhaglen grantiau.
- Rydym yn edrych ar ffyrdd o symleiddio ein gwasanaethau (Ymrwymiad B1, O2) gan leihau costau i gwsmeriaid pan fyddwn yn gallu a byddwn yn 'cynyddu'n hincwm o fewn ein diben' i ddefnyddio'n hasedau yn y modd gorau (Ymrwymiad B4).

Sgiliau'r Gweithlu – byddwch yn fwy penodol am yr effaith bosibl o leihau'r gweithlu

- Mae adran 'Ein Pobl' y Cynllun Corfforaethol yn nodi gostyngiad net i'r gweithlu, ynghyd â chyfleoedd i ailhyfforddi, a'r angen i gynllunio ein gweithlu ar gyfer y dyfodol.
- Mae dangosydd Kc yn gwerthfawrogi arbenigedd ein staff, mae Dangosydd Ob yn mesur y graddau yr ymgysylltir â staff neu eu boddhad, tra bo Ymrwymadau O1 ac yn arbennig O3 yn ystyried datblygu ein staff a darparu cyfleoedd am swyddi medrus iawn yng Nghymru.

Gwrthdaro rhwng buddiannau – sut byddwn ni'n datrys achosion o fuddiannau ein rolau yn gwrthdaro – rheoleiddiwr / gweithredwr / cynghorwr

- Bydd angen i rai tasgau gael eu gwahanu (fel y gwneir yn achos ein rôl ddwbl mewn Aseidiadau Amgylcheddol Strategol) ac rydym yn bwriadu bod yn 'gyson, teg a thryloyw ym mhopeth a wnawn', fel y nodir yn y cyflwyniad i Da i Fusnes yn y Cynllun Corfforaethol.

Sut y byddwn yn cydweithio (Cwestiynau 2,6,9,12,15, 17)

Cwestiwn 2 A hoffech weithio gyda ni mewn unrhyw ffordd i gyflawni'r canlyniadau cyffredin hyn?

Cwestiynau 6,9,12,15 Sut gallwn ni weithio orau mewn partneriaeth â chi i gyflawni'r rhain?

Cwestiwn 17 Beth fyddai'n ei gwneud hi'n haws i chi weithio gyda ni?

Roedd y cwestiynau hyn i gyd yn gofyn ynghylch dulliau o weithio gyda ni ar draws meysydd penodol o'n cynigion. Byddai nifer o'r awgrymiadau yn cwmpasu'r amgylchedd, pobl, busnes, a gwybodaeth, yn ogystal â'n dull cyffredinol o weithio mewn partneriaeth; felly, rydym wedi grwpio'r ymatebion i'r cwestiynau hyn gyda'i gilydd. Roedd nifer o gynigion unigol o gymorth a chydweithredu, ac rydym yn ddiolchgar iawn amdanynt. Ni allwn weithredu ar sail y cynigion i gyd yn syth, ond byddwn yn mynd ar drywydd hynny dros gyfnod y Cynllun Corfforaethol.

Y prif faterion a grybwyllwyd a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy

Roedd cyfres o themâu cyffredin a ddeilliodd o'r ymatebion i'r cwestiynau hyn:-

Rhannu gwybodaeth ac arbenigedd

- *Cyrff proffesiynol* – mae gan y cyrff hyn arbenigedd a gwybodaeth y maent yn fodlon eu rhannu â ni ac maent yn awyddus i ni gydweithio, fel y Sefydliad Tirwedd
- *Rhannu arbenigedd penodol*, er enghraifft ar gyfer cynhyrchu ynni ar raddfa ficro
- *Setiau penodol o wybodaeth* y mae sefydliadau eraill yn eu cadw, fel data bioamrywiaeth, er enghraifft, sy'n helpu i ddarparu'r dystiolaeth hanfodol sydd ei hangen arnom i wneud ein gwaith
- *Cydweithredu* – mae nifer o sefydliadau o bob sector yn fodlon gweithio gyda ni, rhannu eu gwybodaeth a chynnig cyngor a chymorth i ni, er enghraifft lechyd Cyhoeddus Cymru

- *Hygyrchedd* – mae angen i ni sicrhau bod ein gwybodaeth yn hygyrch fel y gall eraill ei defnyddio
- *Yr arferion gorau* – gall y rhai sy'n gweithio gyda ni helpu i ganfod enghreifftiau i'w hefelychu a'r arferion gorau

Mae ein hymrwymiad i rannu gwybodaeth ac arbenigedd wedi'i amlinellu yn y Cynllun Corfforaethol o dan Ddangosydd Kb ac Ymrwymadau K1,2,3).

Dulliau da o gyfathrebu â sefydliadau, grwpiau rhwydweithio a chyrrff proffesiynol mewn modd dwyochrog, gyda pherthnasau gweithio agored

- Gweithdrefn gwynion ac awgrymiadau
- Gall rhwydweithio neu grwpiau ambarél fel Cyswllt Amgylchedd Cymru ein helpu i gyrraedd ystod eang o sefydliadau yn effeithlon ac yn effeithiol
- Defnyddio'r trydydd sector ar ffurf 'broceriaid gonest' i helpu i weithio gyda chymunedau lleol a sefydliadau eraill
- Gwahoddiadau i greu cyswllt â chyrrff masnachu fel Cymdeithas Diwydiannau Petrocemegol y DU i ddatblygu perthnasau gweithio mwy clos o'r cychwyn cyntaf
- Dulliau gweithredu – mae angen i ni ddefnyddio cymysgedd o ddulliau gweithredu ffurfiol ac anffurfiol
- Cyfathrebu'n rheolaidd fel bod pobl yn gwybod am yr hyn i'w ddisgwyl a phryd i'w ddisgwyl, ac yn teimlo'n wybodus a bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf

Caiff cyfathrebu da a gweithio gyda rhanddeiliaid eu hystyried o dan Ymrwymadau K3, P1, P2, P3, P4, B3 ac O1).

Ymgynghori'n lleol â chymunedau

- *Ymgysylltu'n gynnar, cyd-weithio'n lleol*
- *Defnyddio gwybodaeth leol yn y ffordd orau*
- *Ystyried nodweddion gwarchoddedig y bobl yn y poblogaethau yr ydym yn eu gwasanaethu yn ein gwaith*

Mae'r rhain wedi'u hystyried yn adran 'Ein Pobl' y Cynllun Corfforaethol, y cyflwyniad i Gwybodaeth Dda a Da i Bobl, ac o dan Ymrwymadau K3, P3, P4 ac O1.

Mynd ati'n gynnar i gydweithredu a bod yn hyblyg â phrosiectau

Roedd nifer o sefydliadau'n awyddus i weithio gyda ni mewn ystod eang o feysydd, gan gynnwys :-

- Coedwigaeth
- Tirwedd
- Geoamrywiaeth
- Busnesau
- Gwirfoddoli
- Datblygu sgiliau a hyfforddiant
- Hamdden a mynediad
- Prosiectau iechyd a lles

Mae cydweithredu yn thema yn ein Cynllun Corfforaethol drwyddo draw, a cheir cyfeiriadau penodol ato yn adran ‘Sut rydym yn gweithio a gyda phwy rydym ni’n gweithio’ ac mewn nifer o’n Hymrwymadau.

Strwythur clir o ran staff

Mae hyn yn datblygu wrth i’n sefydliad aeddfedu. Mae angen i ni ganfod cydbwysedd rhwng ‘trefniadau busnes arferol’ a datblygu ein syniadau newydd a rhoi strwythurau staff newydd ar waith. Bydd hyn yn cymryd amser i’w sefydlu. Cyfeirir at hyn yn y cyflwyniad i adran Sefydliad Da yn ein Cynllun Corfforaethol.

Syniadau newydd o ran cyllid

Cwestiwn 3. A oes gennych chi unrhyw syniadau ar gyfer ffyrdd newydd o ariannu ein gweithgareddau gyda’n partneriaid?

Mae’r achos busnes dros sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru wedi ein hymrwymo i ganfod arbedion effeithlonrwydd/arbedion o £158 miliwn dros y deng mlynedd nesaf – mae hyn wedi gosod her enfawr i ni. Mae angen i ni nid yn unig gwmpasu meysydd newydd o waith ond gweithio mewn ffyrdd newydd i gynyddu ein heffeithiolrwydd a’n heffeithlonrwydd a chyflawni’r arbedion hyn.

Y prif faterion a grybwyllwyd a sut yr aethpwyd i’r afael â hwy

Roedd yr ymatebion i’r cwestiwn hwn yn llawn gwybodaeth ac maent wedi rhoi nifer o syniadau y gallwn ymchwilio ymhellach iddynt. Roeddent yn perthyn yn fras i’r categorïau a ganlyn:-

Gweithio mewn partneriaeth

- *Partneriaethau Strategol* - rhestr sy’n nodi enwau partneriaid strategol a all helpu i ddylanwadu ar brosiectau eraill/buddsoddwyr a rhannu cyfrifoldeb ariannol, drwy arian cyfatebol, er enghraifft
- *Cydweithredu* – er enghraifft gall cydweithredu rhwng datblygwyr diwydiannol, cynhyrchwyr mwynau, a chynhyrchwyr glo greu atebion integredig sy’n cyflawni rhai o’r amcanion ynghylch defnyddio tir.
- *Rhannu asedau* – offer, arbenigedd, bancio amser, staff naill ai’n anffurfiol neu drwy drefniadau benthyg neu secondiad
- *Partneriaethau lleol ar gyfer prosiectau lleol ar raddfa lai*; cytundebau cyd-reoli a chydweithio
- Mae parch mawr at *arbenigedd staff Cyfoeth Naturiol Cymru a’u cyswllt â phrosiectau a sefydliadau partner*; ochr yn ochr â hyn, pwysleisiodd ymatebwyr bwysigrwydd mawr ein cyllid grant
- *Defnyddio partneriaethau presennol* – peidiwch â dyfeisio rhai newydd

Mae gweithio mewn partneriaeth yn thema allweddol yn y Cynllun Corfforaethol drwyddo draw: ‘Rydym yn awyddus i weithio gyda phartneriaid newydd a’n partneriaid presennol mewn ffyrdd arloesol fel y gallwn gyflawni mwy fyth gyda’n gilydd’ (yn adran ‘Sut rydym yn gweithio’ y Cynllun Corfforaethol).

Ynghyd â gweithio mewn partneriaeth yn yr ymatebion hyn oedd:-

Cyllid a chymorth grant – pan fo eraill yn gallu cyflawni i ni ag ychydig o gymorth ariannol

- Cydweithio ar becynnau cyllido grant, helpu gyda chodi arian ar gyfer prosiectau ar y cyd pan fyddwn yn gallu
- Mae grant bach gan Cyfoeth Naturiol Cymru yn mynd yn bell
- Yn aml, gall sefydliadau'r trydydd sector gael gafael ar gyllid nad ydym ni yn gymwys i'w gael, o bosibl
- Roedd cyllid dros sawl blwyddyn yn arbennig o ddefnyddiol i sefydliadau partner. Dywedodd y rhai sy'n cael grantiau mai'r dull gorau oedd cyllido mewn cylchoedd o 3 blynedd neu ragor er mwyn gwneud y defnydd gorau o'r arian a'r amser (mynediad at arian cyfatebol, amcanion tymor hir, peidio â gwario gormod o amser staff yn ailymgeisio am gyllid).
- Sicrhau bod cylchoedd cyllid yn cyd-daro â'r adegau pan fo arian arall ar gael, fel y gall sefydliadau roi pecynnau cyllido grant at ei gilydd
- Mynegwyd pryderon ynghylch effaith andwyol gostyngiadau sydyn i gyllid grant ar y gwaith o gyflawni amcanion a bennwyd ar y cyd
- Bu'r broses o ymchwilio i gyllid gan y loteri hefyd yn llwyddiant a brofwyd i nifer o sefydliadau sy'n darparu prosiectau amgylcheddol.
- Ystyried bondiau effaith gymdeithasol – pan fo cyllid yn dibynnu ar ganlyniadau

Mae darparu cymorth grant wedi'i restru o dan yr adran ragarweiniol 'Pwy ydym ni a beth rydym yn ei wneud' yn y Cynllun Corfforaethol, a nodwyd bod hon yn un o'n swyddi. Yn ystod 2013/14 rydym yn adolygu ein dull gweithredu yng nghyswllt gymorth grant. Byddwn yn parhau'n bartner ariannu, fodd bynnag, gyda rhaglenni sy'n parhau hyd at 3 blynedd.

Nawdd a Chyllid gan y Sector Preifat

- Ystyriwyd bod cyllid gan y sector preifat ar gyfer gweithgareddau penodol yn ddull defnyddiol o fwrw ymlaen.
- Gallai nawdd corfforaethol a roddir gan gwmnïau preifat sy'n cael budd yn anuniongyrchol, er enghraifft cwmni potelu dŵr, ddarparu cyllid i gefnogi rheolwyr tir a phorwyr sy'n rheoli'n gynaliadwy mewn dalgylchoedd sy'n bwydo'u cyflenwadau

Mae'r rhain yn syniadau i'w hystyried yn y dyfodol, wrth inni weithredu dulliau rheoli dalgylchoedd.

Incwm Masnachol

- Ystyried cynyddu ein hincwm masnachol a symud i feysydd newydd a allai greu incwm. Byddai'r rhain yn cynnwys incwm o goed, gweithgareddau hamdden, cynhyrchu ynni, cyfleoedd ffilmio, mastiau, ac yn y blaen.
- Ailfuddsoddi'r incwm hwn ar gyfer gwelliannau amgylcheddol pellach
- Canfod cydbwysedd rhwng cynyddu incwm a manteision nad ydynt yn ariannol
- Ychwanegu at y sector preifat yn hytrach na chystadlu ag ef

Rydym yn adolygu ein hincwm masnachol ac rydym yn datblygu Fframwaith Menter sy'n edrych ar ystod eang o gyfleoedd; mae hyn yn cynnwys creu incwm o goedwigaeth a darparu gwasanaeth dadansoddol o'n labordy, er enghraifft (Ymrwymiad B3).

Costau / Dirwyon

- Awgrymiad ynghylch rhoi mwy o bwyslais ar ein swydd erlyn a dirwyon am weithgareddau esgeulus a/neu sy'n llygru ac sy'n arwain at ddirywio neu ddinistrio cynefinoedd.
- Ystyried taliadau am gyngor a roddir cyn gwneud cais cynllunio a gwasanaethau eraill

Byddwn yn ystyried ein dull gweithredu yng nghyswllt taliadau dros y flwyddyn sydd i ddod, ac yn edrych ar ddulliau newydd o sbarduno'r canlyniadau rydym yn eu ceisio.

Edrych ar ein costau ein hunain yng nghyswllt gweithredu

Byddwn yn adolygu ein costau wrth i'n sefydliad ddatblygu. Yn ogystal â chyflawni'r manteision a nodir yn yr Achos Busnes, cyfeirir at hyn yn Ymrwymiad O2.

Rhaglen Amgylchedd Da (Cwestiynau 4 a 5)

Cwestiwn 4 A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a sut rydym yn awgrymu eu cyflawni?

Cwestiwn 5 A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?

Atebodd 71 o 92 o ymatebwyr y cwestiwn hwn (77.2%).

A ydych chi'n cytuno?	Ydw	Nac ydw	Ydw, ond...	Ymateb arall
Nifer yr ymatebion	22	3	23	23
% *	31%	4.2%	32.4%	32.4%

* % o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn.

Y prif faterion a grybwyllwyd a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy

Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem – mwy o eglurder o ran yr hyn y mae'n ei olygu a'r modd y bydd yn cael ei roi ar waith

- Mae mwy o fanylion ynghylch sut y bydd hyn yn gweithio i'w gweld yn y Cynllun Corfforaethol o dan Ymrwymiad K1 (datblygu dull rheoli ar lefel yr ecosystem) ac E1 (gweithredu dull rheoli ar lefel yr ecosystem). (Noder hefyd fod Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem wedi symud i raglen Gwybodaeth Dda o raglen Amgylchedd Da yn y cynllun corfforaethol terfynol.)

Mae angen mwy o bwyslais ar dirweddau/morweddau a'r amgylchedd morol.

- Erbyn hyn, mae'r Cynllun Corfforaethol yn cynnwys cyfeiriad clir at Gyfarwyddeb Fframwaith y Strategaeth Forol, y Rhaglen Bontio Forol a Chynllun Gweithredu Strategol y Môr a Physgodfeydd (Ymrwymiad E2); mae cyflwr safleoedd Natura 2000 morol wedi'i gynnwys yn Nangosydd Ee.
- Cyfeirir hefyd at y Confensiwn Tirweddau Ewropeaidd yn Ymrwymiad E2, ac mae cyfeiriad cryfach at dirweddau a warchodir a pharciau cenedlaethol yn rhaglen Amgylchedd Da.

Pryderon ynghylch ansawdd dŵr, a physgodfeydd dŵr croyw

- Mae Dangosydd Ea yn ymdrin ag ansawdd dŵr ('Cydydffurfio â statws da o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr'). Byddwn yn adolygu ein dull o ymdrin â stociau eogiaid (mae hyn wedi'i gynnwys yn adran 'Beth fyddwn ni'n gwneud llai ohono'). Bydd mabwysiadu dull ecosystemol wrth reoli adnoddau naturiol mewn modd integredig yn cynnwys ystyried y pryderon hyn.

- Mae Ymrwymiad E1 yn cynnwys darparu pysgodfeydd cynaliadwy a'u rhaglenni cysylltiedig, yn amodol ar y cyllid.

Gwell rheoleiddio a gweithio'n fwy effeithiol gyda'r byd diwydiannol

- Mae rhaglen Da i Fusnes yn cynnwys datganiadau ynghylch gwell rheoleiddio, materion trawsffiniol a gweithio gyda'r byd diwydiannol, a hynny o dan 'Sut byddwn ni'n gweithio'n wahanol' a 'Beth fyddwn ni'n gwneud llai ohono', ac yn Ymrwymiad B1.

Gwerth y sector coedwigaeth ac Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru

- Sonnir yn benodol am farchnata coed o Ystâd Coetir Llywodraeth Cymru (Ymrwymiad B4); cyfeirir at Goedwigaeth yn Ymrwymiad B2, ac mae cyfeiriad at swyddi yn y sector coedwigaeth yn adran 'Sialensiau a Chyfleoedd' Da i Fusnes.
- Rydym wedi cynnwys dangosydd ynghylch rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy (Eb).
- Mae gennym ymrwymiad i ddarparu cyfleoedd hamdden a'u galluogi ar dir yr ydym yn ei reoli – mae hynny'n cynnwys safleoedd coedwigoedd (P2).

Y Sector Ynni – mwy o eglurder ynghylch rolau Cyfoeth Naturiol Cymru

- Mae gennym ymrwymiad yn B3 i gefnogi ynni'r gwynt ac ynni hydro-electrig ar dir y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei reoli, ac i fwrw ymlaen â gwaith ymchwil ar ei effeithiau economaidd cymdeithasol.
- Rydym yn anelu at greu fframwaith cynllunio sy'n cefnogi datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa briodol ac mewn mannau priodol (yn Da i Fusnes, 'Sut fyddwn ni'n gweithio'n wahanol').

Newid hinsawdd – ymaddasu a lliniaru

- Mae Dangosydd Ed yn mesur allyriadau nwyon tŷ gwydr yng Nghymru
- Mae Ymrwymiad E4 yn ymwneud ag ymaddasu a lliniaru o ran newid yn yr hinsawdd, gan gynnwys sicrhau bod ymaddasu i newid yn yr hinsawdd yn elfen greiddiol o'n holl feysydd gwaith.
- Mae Dangosydd Oe yn mesur y lleihad o ran ôl-troed carbon ein sefydliad.
- Mae Ymrwymiad O2 yn cynnwys bod yn sefydliad enghreifftiol o ran y defnydd o garbon.
- Mae Ymrwymiad E2 yn cyfeirio at rywogaethau estron goresgynnol, ac mae E3 yn cyfeirio at wella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd

Mae'r geosffer / geoamrywiaeth yn cael eu diystyru

- Wrth weithredu Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem, rhaid i ni gynnwys pwyslais priodol ar agweddau anfiotig ar ecosystemau.

Bil Amgylchedd (Cymru)

- Cyfeirir at y Bil yn Nangosydd Ka, ac yn Ymrwymiad K1.

- Gweler hefyd y sylwadau ynghylch ‘Gweithio gyda Llywodraeth Cymru’ o dan Gwestiwn 1.

Ymateb i adroddiad Sefyllfa Byd Natur – barn sefydliadau amgylcheddol y trydydd sector yw hon yn bennaf, ac nid ffermwyr a thirfeddianwyr.

- Byddwn yn defnyddio ystod eang o wybodaeth yn ein hymateb i'r adroddiad hwn.

Byddwch yn fwy uchelgeisiol a dangoswch arweinyddiaeth yn arbennig yng nghyswllt colli bioamrywiaeth – blaenoriaethwch yr amgylchedd

- Rydym bellach wedi rhestru cyflawni targedau bioamrywiaeth Aichi a'r Undeb Ewropeaidd (E3).
- Gweler hefyd y sylwadau am arweinyddiaeth o dan Gwestiwn 21.

Ymchwiliwch i'r posibilrwydd o Dalu am Wasanaethau Ecosystemau (PES)

- Mae hyn wedi'i gynnwys i'w ystyried yn y Cynllun Busnes yn hytrach na'r Cynllun Corfforaethol, fel rhan o Ymrwymiad K1.

Rhywogaethau estron goresgynnol – dylid eu hystyried nid yn unig yng nghyswllt newid yn yr hinsawdd ond ym mhob maes o waith Cyfoeth Naturiol Cymru.

- Caiff hyn ei ystyried o dan Ymrwymiad E2 – ‘[g]warchod a gwella ansawdd aer, tir, môr a dŵr...’.

Rhaglen Da i Bobl (Cwestiynau 7 ac 8)

Cwestiwn 7 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffordd rydym yn awgrymu eu cyflawni?

Cwestiwn 8 – A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?

Atebodd 62 o 92 o ymatebwyr y cwestiwn hwn (67.4%).

A ydych chi'n cytuno?	Ydw	Nac ydw	Ydw, ond...	Ymateb arall
Nifer yr ymatebion	34	9	11	8
%	54.8%	14.5%	17.7%	12.9%

% o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn.

Y prif faterion a grybwyllwyd a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy

Yn gyffredinol, roedd yr ymatebion yn yr adran hon yn gadarnhaol iawn: roedd ymatebwyr yn cytuno i raddau helaeth â'n cynigion ac roeddent yn awyddus i weithio gyda ni i'w cyflawni. O'r materion a grybwyllwyd, roedd nifer yn ymwneud â meysydd penodol iawn o'n gwaith. Ymdrinnir yma â'r rhai a grybwyllwyd gan nifer o ymatebwyr:

Grwpiau nad ydynt â chynrychiolaeth ddigonol a Gweithio gyda Chymunedau

- Mae hyn wedi'i bwysleisio yn adran 'Sut byddwn ni'n gweithio'n wahanol' yn rhaglen Da i Bobl – 'gweithio'n agosach mewn partneriaeth â chymunedau, ac yn gwrando ar ddinasyddion lleol a gweithio gyda nhw, a hynny'n cynnwys pobl o'r grwpiau sydd â nodweddion gwarchoddedig, gan dargedu ein hymdrechion at y cymunedau mwyaf difreintiedig'.
- Cyfeiriodd ymatebwyr yma hefyd at weithio mewn partneriaeth (gweler yr ymatebion i Gwestiwn 3).
- Dylid ystyried ardaloedd gwledig yn ogystal ag ardaloedd trefol.
- Yn adran 'Ein Pobl' y Cynllun Corfforaethol dywedwn: 'Rydym wedi ymrwymo i fod yn agos at ein cymunedau yng Nghymru ... Mae gwerthfawrogi a chefnogi amrywiaeth a gweithredu i sicrhau cydraddoldeb i bobl sydd â nodweddion gwarchoddedig ... yn hollbwysig'.
- Mae'r cyflwyniad i Da i Bobl yn pwysleisio'r angen i ystyried ardaloedd gwledig a threfol sydd mewn angen, a chynnwys pobl o ystod eang o gefndiroedd yn ein gwaith. Mae Dangosydd Pc yn mesur pa mor agos yw manau gwyrdd ar gyfer pobl yng Nghymru, tra bo Ymrwymiad P3 yn ymwneud yn arbennig â chymunedau lleol. Mae Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a gweithio gyda grwpiau nad ydynt â chynrychiolaeth ddigonol yn thema ym mhob un o'n Hymrwymadau drwy'r rhaglenni 'Da' i gyd.

Llifogydd (gan gynnwys llifogydd amaethyddol)

- Mae hwn yn un o'r prif feysydd i ganolbwyntio arno yn adran 'Da i Bobl', ac mae ein dangosydd a'n hymrwymiad cyntaf yn yr adran hon yn ymwneud â'r maes. Mae 208,000 o eiddo â pherygl o gael llifogydd yng Nghymru a'n nod yw lleihau hyn. Caiff hyn ei fesur

gan Ddangosydd Pa – Perygl llifogydd a rheoli llifogydd – nifer yr eiddo sydd â thebygolrwydd is o gael llifogydd.

Hyfforddiant, swyddi a datblygu proffesiynol

- Rydym wedi sicrhau bod mynd i'r afael â thlodi yn flaenoriaeth allweddol mewn ardaloedd trefol a gwledig, ac rydym wedi ymrwymo i wella sgiliau addysgol, dysgu a sectorau a 'gwreiddio ein rôl addysgu yn ein gweithgareddau cyflawni craidd ac yn cefnogi gweithwyr addysg proffesiynol'. Mae nifer o'n dangosyddion a'n hymrwymadau yn y Cynllun Corfforaethol yn cyfeirio at y maes hwn o'n gwaith:-
- Dangosydd Pd: Gwirfoddoli a datblygu sgiliau yn yr amgylchedd – nifer y gwirfoddolwyr sy'n cael eu cynnal yn uniongyrchol gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu'u hwyluso drwy Coetiroedd a Chi (a chynlluniau olynol)
- Dangosydd Pe: Addysgu, dysgu a sgiliau sector – nifer y sefydliadau addysgol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cynorthwyo i ddefnyddio'r amgylchedd ar gyfer addysg, dysgu a sgiliau sector.
- Ymrwymiad B3: Byddwn yn gweithio'n agos gydag eraill i ganfod, datblygu a chefnogi cyfleoedd busnes newydd a chyfleoedd newydd ar gyfer swyddi a hyfforddiant, er mwyn creu gweithlu medrus yng Nghymru.
- Mae Rhan o Ymrwymiad O3 yn cynnwys: 'Parhau i ddarparu swyddi medrus o ansawdd uchel yng Nghymru drwy ddatblygu'r staff presennol yn barhaus a thrwy barhau â chynlluniau prentisiaeth, a gweithio mewn partneriaeth â darparwyr dysgu a hyfforddiant i hyrwyddo a datblygu cyflogaeth yn sector yr amgylchedd.'
- Mae datblygiad proffesiynol ein staff ein hunain yn nod allweddol hefyd, a fesurir gan Ddangosydd Kc – 'Byddwn yn meithrin ein sylfaen tystiolaeth, gan ddiogelu a defnyddio cyfalaf deallusol ein sefydliad a chynyddu lefel cymwysterau, aelodaeth broffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus ein staff.'

Coedwigaeth, afonydd, llifogydd a chadwraeth

- Roedd rhai ymatebwyr o'r farn bod y drafft yn rhy ddyheadol / ideolegol, ac y dylem ganolbwyntio ar y 4 maes allweddol hyn a gadael popeth arall i rai eraill. Fodd bynnag, mae gennym gylch gwaith eang, ond rydym yn cydnabod y dylem gamu o'r neilltu pan fo eraill mewn sefyllfa well i gyflawni. Byddwn yn chwarae ein rhan ac yn cyfrannu at brosiectau yn hytrach na gweithio ar ein pennau ein hunain; mae hon yn thema yn y Cynllun Corfforaethol drwyddo draw, ac fe'i nodir mewn rhannau eraill o'r cynllun fel Gwybodaeth Dda: 'byddwn yn.....helpu eraill os ydyn nhw mewn gwell sefyllfa i wneud ymchwil neu gasglu tystiolaeth berthnasol'.
- Rydym wedi cytuno â Llywodraeth Cymru ar gyfres o Ganlyniadau a Rennir y bydd ein gwaith yn cyfrannu at eu cyflawni. Mae datblygu dulliau o reoli adnoddau naturiol a defnyddio Dull Rheoli ar Lefel yr Ecosystem yn gofyn am feddwl yn eang ac yn gyfannol, yn hytrach na chanolbwyntio ar y 4 maes uchod.

Hamdden a mynediad – pwysigrwydd gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored

- Rydym yn cydnabod yn llwyr bwysigrwydd gweithgareddau hamdden yn yr awyr agored at ddibenion gwella iechyd a lles, a'n rôl o ran darparu cyfleoedd ledled Cymru. Mae hwn yn faes allweddol o'n gwaith yn ein rhaglen Da i Bobl:

- ‘Byddwn yn darparu ac yn galluogi cyfleoedd hamdden a mynediad a fydd yn cyfrannu at wella iechyd a lles pobl drwy, er enghraifft: Ddatblygu ein strategaeth hamdden a mynediad a’i rhoi ar waith, gan gwmpasu pob agwedd o’n swyddogaethau hamdden a chanlyniadau busnes perthnasol’ (Ymrwymiad P2).
- Dangosydd Pb: Hamdden ac iechyd a lles – y ganran o’r bobl sy’n byw yng Nghymru sy’n defnyddio’r awyr agored ar gyfer hamdden yn unol â’r lefelau isafswm o weithgarwch corfforol sy’n ofynnol i gael bywyd iach;
- Dangosydd Pc: Agoswydd man gwyrdd – y ganran o’r boblogaeth sydd â mynediad at fan gwyrdd naturiol megis coetir, parciau neu fan agored.

Manteision cymdeithasol a chyfleoedd busnes genweirio a physgodfeydd

- Er na chyfeiriwyd at y rhain yn benodol, maent wedi’u cynnwys yn ein hymrwymiad i ganfod, cefnogi a datblygu cyfleoedd busnes newydd gan gynnwys twristiaeth a hamdden (Ymrwymiad B3).
- Rydym yn cydnabod gwerth cymdeithasol genweirio ar draws ystod eang o gymunedau a grwpiau oedran. Mae hyn wedi’i gynnwys yn ein hymrwymiad P3: ‘Byddwn yn helpu i sicrhau bod pobl yn gallu byw a gweithio mewn amgylchedd safonol ac ymweld ag amgylchedd felly, yn cynnwys y rheini mewn ardaloedd trefol a’r rhai yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig, a byddwn yn sianelu budd economaidd i helpu i drechu tlodi drwy, er enghraifft: Weithio gyda sefydliadau eraill i ddatblygu rhaglen o brosiectau, yn cynnwys prosiect ‘Cynefin’ Llywodraeth Cymru, i wella ansawdd amgylcheddol yn lleol a darparu cyfleoedd i gymunedau difreintiedig. Mae hyn yn cynnwys prosiectau adfywio trefol.’

Ein rôl o ran addysg a dysgu (sgiliau technegol yn yr awyr agored a chreadigrwydd yn y cwricwlwm gwyddoniaeth)

- Mae ein Tîm Dysgu a Sgiliau Sector yn gweithio’n agos gydag athrawon a gweithwyr proffesiynol eraill ym maes addysg, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, i ddarparu cyfleoedd neu ddulliau dysgu yn yr amgylchedd, ac ynghylch yr amgylchedd. Yn y gorffennol, mae’r aelodau staff hyn wedi cyflwyno dulliau gweithredu newydd, arloesol, gan gynnwys yr Ysgol Goedwig.
- Rydym yn deall yr angen i gael cyswllt agos â staff addysg Llywodraeth Cymru: mae Ymrwymiad P4 yn y Cynllun Corfforaethol yn cynnwys: ‘Sefydlu cysylltiadau â Llywodraeth Cymru i sicrhau bod deunyddiau ac ymweliadau addysgol, yn gysylltiedig â’r cwricwlwm, yn briodol a bod sylw’n cael ei roi i flaenoriaethau Llywodraeth Cymru.’

Rhaglen Da i Fusnes (Cwestiynau 10 ac 11)

Cwestiwn 10 A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffordd rydym yn awgrymu eu cyflawni?

Cwestiwn 11 A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?

Atebodd 62 o 92 o ymatebwyr y cwestiwn hwn (67.4%).

A ydych chi'n cytuno?	Ydw	Nac ydw	Ydw, ond...	Ymateb arall
Nifer yr ymatebion	33	4	13	12
% *	53.2%	12.1%	21.0%	19.4%

* % o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn.

Y prif faterion a grybwyllwyd a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy

Un man cyswllt ac ymgysylltu'n gynnar – fel y gellir cysylltu â ni mewn modd effeithlon a chyson a chydweithio ar ddatblygiadau

- Bydd ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid yn parhau i gael ei datblygu fel y gall cysylltwyr ymdrin â mwy o ymholiadau eu hunain, ac yn gallu cyfeirio cwsmeriaid at yr arbenigwr priodol i gael cyngor mwy manwl. (Ymrwymiad B1)
- Mae'r cynllun Corfforaethol yn cydnabod yr angen i weithio mewn partneriaeth â'r rhai y mae'n eu rheoleiddio o'r cychwyn cyntaf, a datblygu ffyrdd newydd o weithio gyda chwsmeriaid fel y gellir datblygu'r atebion gorau ar gyfer yr amgylchedd, yr economi a chymdeithas drwy gydweithio (mae cyfeiriad at hyn yn y cyflwyniad i Raglen Da i Fusnes).
- Rydym wedi ymrwymo i fod yn glir, yn deg ac yn dryloyw wrth ymdrin â'n cwsmeriaid (mae cyfeiriad at hyn yn y cyflwyniad i Raglen Da i Fusnes).

Rheoleiddio mwy amserol, syml ac effeithiol – mwy o effeithlonrwydd ar ein cyfer ni a'r rhai yr ydym yn gweithio gyda hwy, ynghyd â gwrthod prosiectau anymarferol yn gynnar

- Byddwn yn symleiddio ein dull o ymdrin â rheoleiddio ac yn amcanu at ostwng costau ar gyfer cwsmeriaid fel y disgrifir yn rhaglen Da i Fusnes.
- Bydd ein prosesau gweinyddol ar gyfer dynodi Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig a chyhoeddi Gwarchodfeydd Natur Cenedlaethol yn cael eu hadolygu a'u symleiddio.
- Byddwn yn datblygu un gwasanaeth trwyddedu a chaniatáu (Ymrwymadau B1, B2).
- Ein bwriad yw darparu gwybodaeth a chyngor drwy ein strategaeth reoleiddiol newydd, fel y disgrifir yn 'Sut byddwn ni'n gweithio'n wahanol'.

Darparu cyngor cynllunio a phenderfyniadau ynghylch trwyddedu – rhaid i'r broses o wneud penderfyniadau ganiatáu cydbwysedd rhwng ystyriaethau economaidd ac amgylcheddol a cheisio darparu manteision i'r ddau pan fo'n bosibl. Ystyriwch ymateb i ymgynghoriadau ynghylch trwyddedau amgylcheddol yn ogystal â cheisiadau cynllunio

- Rydym yn datblygu dull newydd o ymdrin â chyngor ar ymgynghoriadau cynllunio a byddwn yn cynghori ynghylch Cynlluniau Datblygu Lleol, strategaethau rhanbarthol a fframwaith datblygu Llywodraeth Cymru, sydd ar y gweill, yn ogystal â '[d]atblygu un gwasanaeth trwyddedu a chaniatáu ... i gael ei ddylunio ar y cyd â'n rhanddeiliaid' (Ymrwymiad B2).
- Ein nod yw cynyddu ein defnydd o ddull ecosystemol sydd wedi'i seilio ar risg, a fydd yn cynnwys dulliau newydd o weithio gyda'n cwsmeriaid ac o fewn y sefydliad (mae cyfeiriad at hyn yn y cyflwyniad i Raglen Da i Fusnes).

Cymru Un Blaned – Canllawiau Datblygu Newydd Llywodraeth Cymru, a'r Cyngor Un Blaned – sicrhewch fod egwyddorion yn cael eu hystyried wrth gynllunio ac mewn ceisiadau cynllunio

- Rydym yn adolygu ein dull o ymdrin ag ymgynghoriadau cynllunio a byddwn yn ystyried hyn.

Canolbwyntio mwy ar Seilwaith Gwyrdd a chyfleoedd ar gyfer manteision economaidd cymdeithasol

- Gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac eraill i gefnogi'r broses o gynhyrchu ynni adnewyddadwy, a chyfleoedd hamdden a thwristiaeth er enghraifft (Ymrwymiad B2).
- Byddwn yn cynnal astudiaeth o'n heffaith ni ar y buddion economaidd cymdeithasol sy'n deillio o ddatblygiadau ynni (Ymrwymiad B2).
- Mae llawer o'n gwaith yn Ymrwymiad P3 ('sicrhau bod pobl yn gallu byw a gweithio mewn amgylchedd safonol ac ymweld ag amgylchedd felly ... a ... sianelu budd economaidd i helpu i drechu tlodi') yn mynd i'r afael â gwelliannau amgylcheddol lleol, datblygu sgiliau a menter gymdeithasol.

Ymarferion caffael nad ydynt yn hepgor mentrau bach a chanolig na mentrau cymdeithasol

- 'Mae ystyried arferion caffael sy'n caniatáu mynediad i fentrau bach, lleol a chymdeithasol yn bwysig ... ynghyd â chael gwerth am arian.' (Cyfeiriad yn y cyflwyniad i Raglen Da i Fusnes) *Caffael*
- Byddwn hefyd yn gallu ystyried hyn o dan Ymrwymadau P3 a O1.

Datblygu busnes a chynyddu'r sail Sgiliau Gwyrdd yng Nghymru

- Ein bwriad yw hwyluso'r broses o ddatblygu cyfleoedd busnes newydd a chomisiynu astudiaeth o'n heffeithiau ar y buddion economaidd cymdeithasol sy'n deillio o ddatblygiadau ynni (Ymrwymiad B3).

- Caiff proses fwy eang o ddatblygu sgiliau ei chefnogi drwy ein rhaglen 'Cyfle' a thrwy ein hymrwymiad i ddarparu a galluogi cyfleoedd i bobl fwynhau'r amgylchedd, dysgu ynddo, a dysgu amdano (Ymrwymadau P3 a P4). Mae 'Cyfle' yn cwmpasu gwirfoddoli, profiad gwaith, lleoliadau i raddedigion a graddedigion uwch, a myfyrwyr ar gwrs rhyngosod, gan weithio mewn partneriaeth ag eraill.
- Gall y manteision i fusnesau o fabwysiadu arferion gweithio mwy gwyrdd gael eu cynnwys yn ein darpariaeth o gyngor, a gallwn ninnau fod yn esiampl i eraill (Ymrwymiad O2).

Mentrau'r Cynllun Datblygu Gwledig

- Mae cyfeiriad o dan ymrwymiad E2 at '[dd]ylanwadu ar ddatblygu a gweithredu deddfwriaeth, rheoleiddio a pholisïau strategol ac arferion yn ymwneud â defnyddio tir yn gynaliadwy, yn cynnwys y Polisi Amaethyddol Cyffredin (PAC), y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG), ac agweddau eraill o amaethyddiaeth a choedwigaeth'.

Ynni adnewyddadwy ar wahân i ynni gwynt ac ynni dŵr

- Er nad ydym wedi sôn yn benodol am dechnolegau eraill yn y Cynllun Corfforaethol, bydd dulliau eraill o ymdrin ag ynni adnewyddadwy yn cael eu hystyried yn ein gwaith.

Buddiannau coedwigaeth a ffermio – nid ydynt â chynrychiolaeth ddigonol ar lefel uwch

- Mae gennym staff sydd â gwybodaeth arbenigol am goedwigaeth (o Gomisiwn Coedwigaeth Cymru gynt) ac o ran arferion ffermio (o Asiantaeth yr Amgylchedd yng Nghymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru gynt). Yn achos coedwigaeth, mae rhywfaint o adnoddau staff Comisiwn Coedwigaeth Cymru gynt wedi trosglwyddo i Lywodraeth Cymru hefyd.
- Caiff aelodau'r bwrdd eu hailbenodi o bryd i'w gilydd – bob 2 neu 3 blynedd, a hynny fel bod rhywfaint o barhad o ran aelodaeth. Rydym yn croesawu ceisiadau i fod yn aelod o'r bwrdd wrth i'r swyddi hyn ddod ar gael i'w hadnewyddu.

Dyrannu'n briodol yn achos staff ac adnoddau yn arbennig er mwyn sicrhau asesiad prydlon o brosiectau seilwaith ac ynni

- Mae gennym ymrwymadau i ddarparu cymorth busnes a gofal cwsmeriaid effeithlon (O1) a chynyddu gallu'r gweithlu drwyddo draw (O3).
- 'Byddwn ... yn ceisio creu fframwaith sy'n hybu datblygu prosiectau ynni adnewyddadwy ar raddfa briodol ac mewn mannau priodol'; yn adran ragarweiniol Da i Fusnes.
- 'Fel rheoleiddiwr, byddwn yn darparu cyngor wedi'i seilio ar dystiolaeth a phenderfyniadau clir mewn da bryd i alluogi busnesau yng Nghymru i weithredu'n effeithiol a chyrraedd y safonau amgylcheddol uchaf.' (Ymrwymiad B1)
- 'Byddwn yn gweithio gyda busnes, diwydiant a llywodraeth i gefnogi datblygu seilwaith allweddol ac i annog datblygu yn y lleoedd iawn er mwyn sicrhau bod ein hadnoddau naturiol yn cael eu rheoli'n gynaliadwy'. (Ymrwymiad B2)

- Gwyddom fod gennym fylchau yn ein harbenigedd yn y sefydliad yn gyffredinol ac rydym yn edrych ar fynd i'r afael â'r rhain.

Gwella cynlluniau'r Cod Cartrefi Cynaliadwy a BREEAM i gyflawni mwy ar gyfer gwytnwch ecosystemau a bioamrywiaeth

Nid ydym yn cyfeirio'n benodol at hyn, ond gallwn ystyried yn y dyfodol sut y dylanwadwn ar eraill i gyflawni'r canlyniadau rydym yn eu ceisio.

Rhaglen Gwybodaeth Dda (Cwestiynau 13 a 14)

Cwestiwn 13 – A ydych chi'n cytuno â'n cynigion a'r ffordd rydym yn awgrymu eu cyflawni?

Cwestiwn 14 – A ydym ni wedi hepgor unrhyw beth pwysig?

Atebodd 60 o 92 o ymatebwyr y cwestiwn hwn (65.2%).

A ydych chi'n cytuno?	Ydw	Nac ydw	Ydw, ond...	Ymateb arall
Nifer yr ymatebion	35	3	14	8
% *	58.3%	5.0%	23.3%	13.3%

* % o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn.

Y prif faterion a grybwyllwyd a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy

Roedd y materion a grybwyllwyd mewn ymateb i'r cwestiynau hyn yn amrywio gryn dipyn. Rydym wedi tynnu sylw at y pryderon mwyaf cyffredin ac wedi ymateb iddynt – er y dylid nodi mai dim ond 3 ymatebwr a oedd yn anghytuno â'n cynigion ac yn awgrymu dulliau o'u cyflawni.

Yr Arferion Gorau

- Un o'r prif faterion a grybwyllwyd oedd yr angen i sefydlu protocolau fel bod yr holl ddata yn ddiuedd, bod ein penderfyniadau wedi'u seilio ar dystiolaeth gadarn a'n bod yn defnyddio'r arferion gorau ac yn eu hyrwyddo – aethpwyd i'r afael â hyn yn adran Gwybodaeth Dda y Cynllun Corfforaethol a thynnwyd sylw ato ar ffurf dangosydd – “byddwn yn sefydliad wedi'i seilio ar dystiolaeth.....Mae ein hygredded a'n hatebolrwydd am ein penderfyniadau a'n gweithredoedd yn dibynnu ar wybodaeth”; caiff ei bwysleisio ar ffurf dangosydd allweddol (Kc – Meithrin ein harbenigedd).

Rhannu Data

- Yn ein cyflwyniad i adran Gwybodaeth Dda, dywedwn: ‘Mae gennym rôl bwysig i'w chwarae ... cyfrannu i'r sylfaen tystiolaeth, rhannu ein gwybodaeth ag eraill, a darparu ffordd fwy cydgyssylltiedig o gasglu tystiolaeth’. Mae hyn yn cynnwys egwyddor ‘casglu unwaith, defnyddio droeon’. Caiff hyn ei fesur yn Nangosydd Kb – ‘Bod ein data yn cael ei ddefnyddio gan eraill i wneud penderfyniadau’.

Gwneud gwybodaeth yn ddiddorol ac yn hygyrch i'r cyhoedd

- Mae cynnwys aelodau'r cyhoedd a'u hysbysu yn bwysig os ydym am iddynt werthfawrogi, diogelu a mwynhau ein hamgylchedd – rydym wedi nodi hyn ac wedi mynd i'r afael ag ef yn adran ‘Da i Bobl’: ‘Byddwn yn helpu pobl i ailgysylltu â'n hadnoddau naturiol, a deall eu pwysigrwydd a'u perthnasedd i fywyd bob dydd’. Mae

Ymrwymiad K3 a'n Cynllun Busnes hefyd yn cyfeirio at y ffaiith ein bod yn canolbwyntio ar wella ein dull o gyfathrebu am faterion cymhleth ag ystod eang o randdeiliaid.

Cymunedau Lleol

- Mae 'Gwyddoniaeth y Bobl' a gwaith monitro lleol yn darparu data defnyddiol ac yn hyrwyddo'r broses o gynnwys cymunedau – mae pwysigrwydd cynnwys cymunedau wedi'i gydnabod a'i bwysleisio eto yn adran 'Da i Bobl' ac o ran casglu data a gwybodaeth yn adran Gwybodaeth Dda: "Mewn partneriaeth ag eraill, byddwn yn adeiladu ein sylfaen tystiolaeth, yn sicrhau ei bod ar gael ... drwy weithio gyda Llywodraeth Cymru, academia a'r sector gwirfoddol yn ogystal â defnyddio 'gwyddoniaeth y bobl'".

Gweithio gydag Eraill

- Rydym yn awyddus i ddatblygu ein gwybodaeth drwy weithio gydag eraill, fel y nodir yn Ymrwymiad K1, er enghraifft, o ran datblygu ein dull o reoli adnoddau naturiol a dull rheoli ar lefel yr ecosystem: 'Mewn partneriaeth ag eraill, a Llywodraeth Cymru yn arbennig, byddwn yn datblygu dull rheoli ar lefel yr ecosystem a rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig fel bod ein hadnoddau naturiol yn gallu parhau i'n cynnal yn y dyfodol. Byddwn yn treialu ac yn arddangos y gwaith hwn fel bod eraill yn gallu defnyddio'r hyn rydym ni wedi'i ddysgu a'i gymhwyso i'w gwaith nhw'.
- Cawsom lawer o gynigion o gymorth, rhannu a chydweithio yn yr ymatebion i'r ymgynghoriad, ac rydym yn awyddus i fynd ar drywydd y rheini. Gweler hefyd adran 'Sut y byddwn yn cydweithio', uchod.

Meithrin Arbenigedd

- Mae staff profiadol a gwybodus yn ased ac yn hanfodol er mwyn gweithio gyda rhanddeiliaid, partneriaid a'n cymunedau – nodwyd hyn ar ffurf dangosydd allweddol: Kc – Meithrin ein harbenigedd - 'Byddwn yn meithrin ein sylfaen tystiolaeth, gan ddiogelu a defnyddio cyfalaf deallusol ein sefydliad a chynyddu lefel cymwysterau, aelodaeth broffesiynol a datblygiad proffesiynol parhaus ein staff' yn ogystal â rhannu gwybodaeth ac arbenigedd ag eraill.

Datblygu ein sefydliad (Cwestiwn 16)

Cwestiwn 16 A ydych chi'n cytuno â sut rydym ni'n bwriadu datblygu ein sefydliad?

Atebodd 59 o 92 o ymatebwyr Gwestiwn 16 (64% o'r ymatebwyr).

A ydych chi'n cytuno?	Ydw	Nac ydw	Ydw, ond...	Ymateb arall
Nifer yr ymatebion	21	2	10	26
% *	35.6%	3.4%	16.9%	44.1%

* % o'r rhai a atebodd y cwestiwn hwn

Mae'r adran hon o'r cynllun wedi'i datblygu'n sylweddol ar ffurf rhaglen Sefydliad Da ers i'r ddogfen ymgynghori gael ei chyhoeddi. Mae ganddi ragor o fanylion erbyn hyn, sy'n ymdrin â nifer o'r pryderon a fynegwyd yn yr atebion.

Fel rhan o'r gwaith o sefydlu rhaglen o'r enw Sefydliad Da, fel yn achos y rhaglenni Da eraill, roedd angen i ni ddisgrifio'r hyn yr oedd 'da' yn ei olygu:

Sefydliad Da:

'Beth mae 'Da' yn ei olygu: yn cael ei arwain a'i reoli'n dda, gyda staff â sgiliau a phrofiad addas a systemau a phrosesau creiddiol effeithiol; yn dryloyw yn ein penderfyniadau ac yn gwella'n gwasanaeth i gwsmeriaid a phartneriaid yn barhaus, gan feincnodi ein hunain yn erbyn y goreuon.'

Y prif faterion a grybwyllwyd a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy

Gweithio'n lleol a chysylltiadau lleol – ystyriwyd bod rhwydwaith swyddfeydd lleol / swyddogion lleol â chyswllt wyneb yn wyneb yn bwysig

- Rydym yn cydnabod hyn ac rydym am ddarparu gwasanaeth da i'r rhai yr ydym yn gweithio gyda hwy. Yn adran 'Ein Pobl' ein Cynllun Corfforaethol, dywedwn: 'Rydym wedi ymrwymo i fod yn agos at ein cymunedau yng Nghymru ...'
- Bydd Dangosydd Oa yn mesur boddhad cwsmeriaid drwy gyfres o fesurau a gaiff eu cyfuno i lunio mynegai; mae Ymrwymiad O1 yn ymwneud â'n dymuniad i ddarparu cymorth da i'r bobl yr ydym yn gweithio gyda hwy, gan gyfathrebu'n glir a chyflawni ein cynllun iaith Gymraeg.
- Mae Ymrwymiad O2 yn amlinellu'r arbedion effeithlonrwydd y mae angen i ni eu gwneud gan gynnwys ein strategaeth adeiladau. Rydym am ganfod cydbwysedd o ran defnyddio swyddfeydd yn effeithlon heb amharu ar gyfleoedd ar gyfer cyswllt lleol.
- Mae Ymrwymiad B1 yn cynnwys parhau i ddatblygu ein Canolfan Gofal Cwsmeriaid ar ffurf pwynt cyswllt sengl fel y gall pobl siarad â'r unigolyn cywir yn gyflym ac yn effeithlon.

Pwysigrwydd cadw staff medrus – mae arbenigedd a sgiliau staff yn cael eu parchu'n fawr gan bartneriaid

- Mae'r disgrifiad o 'Sefydliad Da' yn cynnwys 'gyda staff â sgiliau a phrofiad addas'.
- Mae gennym ymrwymiad clir i ddatblygiad staff (yn Ymrwymiad O3), tra bo Dangosydd Kc yn edrych ar ddatblygiad proffesiynol parhaus ein staff.
- Yn adran 'Ein Pobl', fel rhan o'n Strategaeth Pobl a'r cynllun gweithlu, rydym yn cydnabod yr angen i gynllunio ar gyfer y dyfodol wrth i aelodau profiadol o'n staff ymddeol, ac ystyried ailhyfforddi staff, fel bod ganddynt gyfleoedd i newid y math o waith y maent yn ei wneud .

Tryloywder

- Gwnawn ymrwymiad clir i dryloywder wrth wneud penderfyniadau yn y cynllun drwyddo draw, yn rhaglenni Gwybodaeth Dda, Busnes Da, a Sefydliad Da. Mae ein diffiniad o Sefydliad Da yn cynnwys: 'yn dryloyw yn ein penderfyniadau ...', ac yn adran ragarweiniol Da i Fusnes rydym yn egluro ein bod yn dymuno bod yn 'gyson, teg a thryloyw ym mhopeth a wnawn'.

Pwysigrwydd hyblygrwydd

- Mae ein hadran Sialensiau a Chyfleoedd yn 'Sefydliad Da' yn cynnwys y datganiad clir: 'Rydym am fod yn sefydliad sy'n hyblyg ei ymagwedd, yn barod i ymateb i anghenion cwsmeriaid, ac yn cyflawni canlyniadau yn y ffordd fwyaf cost effeithiol.'
- Dywedwn hefyd: 'Byddwn yn dibynnu llai ar broses a mwy ar rymuso ein staff ac ymddiried ynddynt i gyflawni'n blaenoriaethau'. Mae hyn i'w weld yn adran 'Beth fyddwn ni'n gwneud llai ohono ' yn Sefydliad Da.

Egwyddorion a gwerthoedd da – cyfleu'r rhain yn glir i bobl Cymru, cyfathrebu â chymunedau a chael ein llywio ganddynt, yn ogystal â gweinigogion a'r llywodraeth

- Gwnaethom gyflwyno ein gwerthoedd yn adran 'Ein Pobl' y ddogfen ar gyfer ymgyngori â'r cyhoedd ac rydym yn eu cyflwyno yn awr yn ein Cynllun Corfforaethol – y gwerthoedd hyn yw bod yn angerddol ac yn uchelgeisiol, ac yn ddisgybledig a llawn ffocws, ennyn ymddiriedaeth a bod yn broffesiynol, gan weithredu gyda synnwyr cyffredin, a bod yn gyfrifol ac yn atebol am ein gweithredoedd.

Ymrwymiad i'r Gymraeg

- Ceir cyfeiriad yn adran 'Ein Pobl': 'Mae llawer o'n staff ar draws Cymru yn rhugl yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae ein Cynllun Iaith Gymraeg yn ein helpu i gryfhau ein gallu dwyieithog ymhellach.'
- Rydym hefyd wedi ymrwymo i roi ein Cynllun Iaith Gymraeg ar waith (Ymrwymiad O1).

Ffiniau gweinyddol – sicrhau, pan fo'n bosibl, fod ffiniau rheoli Cyfoeth Naturiol Cymru yn cyd-fynd â'r rhai a ddefnyddir gan bartneriaid. Mae tuedd i nodweddion daearyddol, er enghraifft afonydd, fod yn ffiniau Awdurdodau Lleol yn hytrach na chanolbwytiau.

- Byddwn yn ystyried materion o ran ffiniau wrth i ni ddatblygu cynlluniau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol mewn modd integredig a'n ffiniau gweinyddol ein hunain.
- Mae adroddiad 'y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus wedi'i gyhoeddi bellach a byddwn yn cynnwys hyn yn ein ffordd o feddwl.

Adrodd ar ba mor dda rydym yn cyflawni ein gwaith (Cwestiynau 18,19, 20)

Cwestiwn 18. Ai dyma'r ffordd gywir o asesu ein gwaith cyflawni?

Atebodd 54 o 92 o ymatebwyr Gwestiwn 18 (58.7% o'r ymatebwyr).

A ydych chi'n cytuno?	Ydw	Nac ydw	Ydw, ond...	Ymateb arall
Nifer yr ymatebion	27	1	9	17
% *	50.0%	1.9%	16.7%	31.5%

* % o'r rhai a atebodd y cwestiwn.

Y prif faterion a grybwyllwyd a sut yr aethpwyd i'r afael â hwy

Fel y mae'r tabl yn ei ddangos, roedd yr ymatebion gan y rhai y gwnaethom ymgynghori â hwy yn gadarnhaol gan amlaf o lawer— dim ond un o'n hymatebwyr a oedd yn anghytuno â'n dull arfaethedig; pan wnaed sylwadau ychwanegol, rydym wedi ymdrin â hwy isod:

Targedau Clir – mae angen nodau mesuradwy realistig yn ogystal â chysyniadau dyheadol

- Wrth i'r Cynllun Corfforaethol ddod at ei gilydd, o'r fersiwn ddrafft a ddarparwyd i'r rhai yr ymgynghorwyd â hwy, rydym wedi datblygu cyfres o ddangosyddion ar gyfer pob un o'n 5 Rhaglen Dda. Mae gennym hefyd gyfres o dargedau sy'n cyd-fynd â'n Cynllun Busnes.

Adolygu perthnasedd parhaus targedau yn rheolaidd – dylid cynnwys rhanddeiliaid yn yr adolygiadau hyn

- Mae'r mesurau yn y Cynllun Busnes blwyddyn a ddatblygwyd gennym, ochr yn ochr â'r Cynllun Corfforaethol, yn edrych yn uniongyrchol ar yr hyn yr ydym ni yn Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud – ein hallbynnau. Bydd hyn, ynghyd â dangosyddion y Cynllun Corfforaethol, yn llunio ein Fframwaith Perfformio, 'i sicrhau bod ein gwaith yn wir yn gwneud y gwahaniaeth yr ydym am ei wneud'.

Crisialu arloesedd a'r arferion gorau – a fydd yn eu tro yn arwain at fwy o arbedion effeithlonrwydd

- Rydym wedi nodi hyn fel rhan o'n cylch gwaith yng nghyswllt Sefydliad Da: 'mae angen inni fod yn fwy effeithlon, entrepreneuriaid ac arloesol ... [c]ynhyrchu rhagor o incwm i'w ailfuddsoddi yn ein gwasanaethau ... [m]anteisio ar gyfleoedd sy'n cyd-fynd â'n diben a'n blaenoriaethau.'

Mae canfyddiad y cyhoedd yn bwysig – dylid cynnwys y cyhoedd.

- Rydym wedi pennu hyn yn flaenoriaeth, ac mae ein dangosydd cyntaf, sef Oa – Mynegai Bodlonrwydd Cwsmeriaid a Rhanddeiliaid, yn ymwneud â'r modd yr ydym yn rhyngweithio â'n cwsmeriaid o bob maes o'n gwaith. Mae staff yn rhyngweithio â'r cyhoedd bob dydd, a bydd y gwaith o gyflawni pob un o'n hymrwymiaadau a dangosyddion yn adran 'Da i Bobl' yn arbennig yn dylanwadu ar ganfyddiad y cyhoedd o'n sefydliad.

Sut y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu creu cyswllt â thargedau a nodau tymor hir a bennir gan y Llywodraeth?

- Mae hyn yn digwydd mewn sawl ffordd a chyfeirir ato mewn amryw o rannau o'r Cynllun Corfforaethol – ac yn enwedig yn adran 'Sut rydym ni'n gweithio gyda Llywodraeth Cymru', lle rydym yn disgrifio'r saith canlyniad yr ydym y eu rhannu â Llywodraeth Cymru: 'Mae gennym gyfres o ganlyniadau ... y cytunwyd arnynt ac yr ydym yn eu rhannu ... Rydym yn cael Llythyr Cylch Gwaith ar ddechrau pob blwyddyn ariannol yn nodi beth mae Llywodraeth Cymru am i ni ei gyflawni yn ystod y flwyddyn honno ... Mae sicrhau bod ein gwaith yn cyd-fynd yn glir â newid mewn deddfwriaeth hefyd yn bwysig iawn, wrth i Filiau'r Amgylchedd, Cenedlaethau'r Dyfodol, Cynllunio, a Threftadaeth i gyd gael eu datblygu.'

Cwestiwn 19. A wyddoch am ddangosyddion penodol y dylem eu holrhain?

Awgrymwyd ystod o wahanol ddangosyddion. Mae'r rhain wedi'u grwpio isod.

Hamdden a Chynnwys y Gymuned – a yw *Hawliau Tramwy ar gael, Llwybr Arfordir Cymru, nifer y cerddwyr a gofnodwyd a dangosyddion ynghylch ymgysylltu â'r gymuned, e.e. prosiectau ysgolion.*

Mae'r dangosyddion a ganlyn wedi'u cynnwys yn y Cynllun Corfforaethol ac mae targedau pellach yn y Cynllun Busnes (ar gyfer Ymrwymiad P3 yn arbennig)

- **Dangosydd Pb: Hamdden ac iechyd a lles** – Y ganran o'r bobl sy'n byw yng Nghymru sy'n defnyddio'r awyr agored ar gyfer hamdden yn unol â'r lefelau isafswm o weithgarwch corfforol sy'n ofynnol i gael bywyd iach.
- **Dangosydd Pc: Agosrwydd man gwyrdd** – Y ganran o'r boblogaeth sydd â mynediad at fan gwyrdd naturiol, megis coetir, parciau neu fan agored.
- **Dangosydd Pd: Gwirfoddoli a datblygu sgiliau yn yr amgylchedd** – Nifer y gwirfoddolwyr sy'n cael eu cynnal yn uniongyrchol gan Cyfoeth Naturiol Cymru neu'u hwyluso drwy Coetiroedd a Chi (a chynlluniau olynol).
- **Dangosydd Pe: Addysgu, dysgu a sgiliau sector** – Nifer y sefydliadau addysgol y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn eu cynorthwyo i ddefnyddio'r amgylchedd ar gyfer addysg, dysgu a sgiliau sector.
- **Dangosydd Pf: Effeithiau economaidd** – Buddion ac effaith economaidd hamdden yng Nghymru, gan ddefnyddio'r Llwybr Arfordir fel enghraifft.

Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr a'r Gyfarwydddeb Cynefinoedd – *dylai unrhyw ddangosyddion a gysylltir â'r rhain fod yn flaenoriaeth*

- **Dangosydd Ea: Ansawdd dŵr** – Cydymffurfio â statws da o dan y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.

Data bioamrywiaeth, cynefinoedd a rhywogaethau blaenoriaeth – *gan gynnwys targedau Bioamrywiaeth 2020*

- **Dangosydd Ec: Bioamrywiaeth** – Mynegeion poblogaethau adar a dangosyddion bioamrywiaeth eraill y Deyrnas Unedig ar gyfer safleoedd neu gynefinoedd, y mae modd eu dadgyfuno i lefel Cymru.
- **Dangosydd Ee: Amgylchedd morol, daearol a dŵr croyw** – Cyflwr nodweddion safleoedd Natura 2000 morol, daearol a dŵr croyw.

Adroddiad Sefyllfa Byd Natur

- Mae ein dangosyddion Ec ac Ee uchod yn mesur materion a grybwyllwyd yn adroddiad Sefyllfa Byd Natur.

Coetiroedd i Gymru

- **Dangosydd Eb: Rheoli coedwigoedd yn gynaliadwy** – Ein bod yn gwybod bod coetiroedd yn cael eu rheoli yn unol â Safon Coedwigaeth y Deyrnas Unedig (UKFS).

Adborth gan Randeiliaid – gallai dangosyddion gynnwys ansawdd, cysondeb a phrydlondeb

- **Dangosydd Oa: Mynegai bodlonrwydd cwsmeriaid a rhanddeiliaid.** Rydym yn defnyddio cyfres o fesurau sy'n ystyried nifer o ffactorau gwahanol ar gyfer y dangosydd hwn, y byddwn wedyn yn eu cyfuno i lunio mynegai.

Llygredd, Gwastraff a Digwyddiadau Amgylcheddol – dylai'r rhain lunio un gyfres o ddangosyddion

Mae gennym nifer o fesurau sy'n ymwneud â'r maes hwn o waith yn ein Cynllun Busnes, yn ogystal â'r dangosyddion a ganlyn yn ein Cynllun Corfforaethol:-

- **Dangosydd Ed: Newid Hinsawdd** – Allyriadau nwyon tŷ gwydr
- **Dangosydd Bc: Dod â safleoedd i mewn i gyfundrefn reoli** – Y nifer o safleoedd didrwydded sy'n peri risg arwyddocaol i'r amgylchedd a gaiff eu tynnu i mewn i gyfundrefn reoli, neu'u cau.
- **Dangosydd Bb: Rheoli safleoedd** – Y gyfran o safleoedd sy'n gwneud gweithgareddau sy'n cael eu rheoleiddio y mae eu perfformiad amgylcheddol yn gwella.

Cwestiwn 20. Beth fydd yn cyfrif fel llwyddiant?

Roedd yr atebion i'r cwestiwn hwn yn rhoi syniad gwerthfawr a oedd yn ysbrydoli o'r hyn yr hoffai'r ymatebwyr i nodweddion Cymru fod yn y dyfodol. Edrychwn ymlaen at allu helpu i gyflawni hyn cyn belled ag y gallwn, gan annog eraill a chydweithio â hwy.

- ***Amgylchedd Naturiol yng Nghymru sy'n ddiogel ac a gaiff ei warchod – mae Cyfoeth Naturiol Cymru â dylanwad sylweddol dros Lywodraeth Cymru a pholisi sy'n esgor ar ddulliau cadarn o reoli ein hamgylchedd a'n hadnoddau naturiol; cefn gwlad sefydlog a chynaliadwy ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol. Statws ecolegol da a chydymffurfio â'r Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr.***
- ***Yn cael ei barchu a'i werthfawrogi gan bobl Cymru – mae'r cyhoedd yn gwybod am yr hyn y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn ei wneud a pha mor dda y mae'n ei wneud, ynghyd â chenedl yng Nghymru sy'n parchu gwerth cefn gwlad Cymru a'r angen i'w ddiogelu. Poblogaeth iach, fywiog, llewyrchus, sydd wedi ymgartrefu yn yr awyr agored.***
- ***Perthnasau Gweithio Da – gweithio mewn partneriaeth â busnesau, cymunedau, a sefydliadau'r trydydd sector, gan gynnwys mwy o gydweithredu rhwng cyrff llywodraethol ac anllywodraethol a phroses glir o ganfod blaenoriaethau ac ymgysylltu â phobl Cymru i gyflawni'r rhain.***
- ***Busnes yn tyfu – economi llewyrchus yng Nghymru sy'n caniatáu i ddiwydiannau traddodiadol weithio mewn modd sy'n cydweddu â'r amgylchedd, gyda chynnydd o***

ran cyflogaeth a ffyniant. Creu mwy o refeniw o weithgareddau hamdden, pysgota a hela; cynhyrchu mwy o goed, wedi'i brosesu yng Nghymru. Mwy o gydweithredu â byd diwydiant a byd busnes

- **Rhoi terfyn ar golli bioamrywiaeth** – adennill rhywogaethau allweddol, adfer cynefinoedd allweddol a meithrin gwytnwch yn yr amgylchedd; llai o gynefinoedd dan fygythiad o gael eu hynysu, neu o orgyffwrdd.
- **Coetiroedd Gwell** – dylid cyflwyno targedau blynyddol ynghylch plannu coetiroedd, y dylai fod rhaid eu cyflawni er mwyn dangos llwyddiant. Mwy o goetiroedd, mwy o goetiroedd mewn cyflwr ecolegol da, llai o achosion o glefydau.
- **Mynediad Gwell at Gefn Gwlad** – iechyd a lles gwell oherwydd mynediad rhwyddach at amgylchedd naturiol Cymru a'i fod yn cael ei werthfawrogi mwy. Defnydd cynaliadwy o fannau yn yr awyr agored mewn modd a all ymdopi â thwf.
- **Gwell Monitro a Data** – gwelliannau a brofwyd gan wyddoniaeth.

Sylwadau eraill (Cwestiwn 21)

Cwestiwn 21 A hoffech wneud unrhyw sylwadau pellach?

Mewn rhai achosion, roedd y sylwadau a wnaed yma yn adleisio'r rhai a wnaed yng nghyswllt cwestiynau eraill, mwy penodol. Pan oedd hynny'n wir, symudwyd y sylwadau o Gwestiwn 21 ac fe'u hystyriwyd ochr yn ochr â sylwadau tebyg yn gynharach yn yr adroddiad.

Arweinyddiaeth: Dangoswch arweinyddiaeth gref a byddwch yn eiriolwr dros amgylchedd Cymru.

- Rydym yn cydnabod bod Arweinyddiaeth – *yn rhinwedd sefydliad ac o fewn y sefydliad* yn hollbwysig er mwyn llwyddo. Rydym am i'n Sefydliad Da gael ei 'arwain a'i reoli'n dda' ac rydym wedi cynnwys '[c]ynyddu gallu'r gweithlu drwyddo draw, yn cynnwys arweinyddiaeth strategol drwy fuddsoddi mewn dysgu a datblygu' fel rhan o'n Hymrwymiad O3.
- Mae ein diben, a geiriau'r adran a ganlyn, yn cyflwyno ein barn o ran ein syniad ni o Gymru yn y dyfodol: 'Rydym am i Gymru fod yn fan lle mae'r aer, y tir a'r dŵr yn cael eu rheoli'n gynaliadwy. Rydym yn defnyddio Gwybodaeth Dda ... fel bod yr hyn rydym yn ei wneud yn Dda i'r Amgylchedd... yn Dda i Bobl ... yn Dda i Fusnes ... a'n bod ni yn Sefydliad Da'.
- Rydym yn cydnabod bod hon yn her enfawr. Gan fod gennym gylch gwaith mor eang, ni fyddwn byth yn gallu plesio pawb drwy'r amser, ond gofynnwn ichi barhau i gysylltu â ni a sicrhau bod eich sylwadau a'ch pryderon yn cael eu hadlewyrchu.
- Rydym yn parchu ac yn gwerthfawrogi angerdd, ymrwymiad a gwybodaeth arbenigol ein rhanddeiliaid niferus yn y meysydd penodol y maent yn ymwneud â hwy. Yn yr un modd, y datganiad cyntaf yn adran 'Ein Pobl' ynghylch ein gwerthoedd sefydliadol yw y byddwn yn '[a]ngerddol ac uchelgeisiol ynglŷn â'n gwaith a'r effaith bositif a gawn'.

Cyfuno'r cyrff cyfansoddol a'u swyddogaethau o fewn Cyfoeth Naturiol Cymru

- Rydym yn cydnabod ei bod yn hollbwysig creu diwylliant a rennir ac ymdeimlad o falchder ymysg staff Cyfoeth Naturiol Cymru. Rydym yn dysgu gan ein profiad yn ein cyrff etifeddiaeth ac yn meithrin diwylliant newydd, a gwyddom fod rhaid i ni weithio mewn modd gwahanol yn y dyfodol er mwyn cyflawni'r hyn yr ydym yn dymuno ei gyflawni.
- Rydym wedi cyfeirio at hyn yn y Cynllun Corfforaethol, yn: '[D]atblygu'r sefydliad, a helpu staff i adlewyrchu'r gwerthoedd, yr amrywiaeth a'r diwylliant yr ydym am eu harddel' (Ymrwymiad O3); a Dangosydd Oa, sy'n ymwneud â mynegai ynghylch ymgysylltu â staff.
- Roedd y dull integredig hwn yn un o'r rhesymau sylfaenol dros greu Cyfoeth Naturiol Cymru. Ni fydd ein nod hysbys o gyflawni dull integredig o reoli adnoddau naturiol yng Nghymru drwy reoli ar lefel yr ecosystem (Ymrwymiad K1, Dangosydd Ka) yn cael ei wireddu heb broses gyfuno wirioneddol yn ein sefydliad ein hunain. Rydym yn cydnabod y bydd y broses hon yn cymryd amser, ond rydym yn gweithio'n ddiwyd i gyflawni hyn.

Mae rhai wedi cael profiad o gyswllt araf ac anodd â ni yn ystod ein blwyddyn gyntaf

- Yn ymarferol, mae gennym nifer o ymrwymiadau i ddarparu gwasanaeth da a phrydlon i gwsmeriaid (Ymrwymiadau B1, B2, O1; Dangosyddion Ba, Bd, Oa). Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ddweud wrthym os bydd problemau parhaus yn y maes hwn fel y gallwn fynd i'r afael â hwy.

Yr Amgylchedd a Bioamrywiaeth: cydbwysedd rhwng materion economaidd/cymdeithasol/amgylcheddol

- Bydd ein hymrwymiad i ddatblygu a mabwysiadu dulliau rheoli adnoddau naturiol a rheoli ar lefel yr ecosystem yn golygu 'rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn modd integredig sy'n hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy mewn ffordd deg'. (Ymrwymiadau K1 ac E1)
- Yn ein Hymrwymiad E3, mae gennym nifer o rolau sy'n helpu i sicrhau gwynwch ecosystemau, gan gynnwys cyflawni targedau bioamrywiaeth yr Undeb Ewropeaidd ac Aichi, ystyried rheolaeth ac adfer strategol ar safleoedd dynodedig Cymru a gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd. Yn Ymrwymiadau B1 a B2, rydym yn edrych ar reoleiddio a thrwyddedu er mwyn helpu i ddiogelu'r amgylchedd.
- Bydd gennym benderfyniadau anodd i'w gwneud, a bydd yn rhaid i ni seilio ein penderfyniadau ar y dystiolaeth orau sydd gennym.

Hyblygrwydd i adolygu'r cynllun ar sail profiad

- Rydym yn cydnabod na fydd pethau'n aros yr un fath ac mae angen i ni ddatblygu dull hyblyg o weithredu. Yn adran 'Y Cynllun hwn' yn y Cynllun Corfforaethol, dywedwn: 'rydym yn bwriadu cyhoeddi Cynllun Corfforaethol treigl, gan ddarparu diweddariadau yn ôl y gofyn. Ar ôl y cyfnod cyntaf hwn o dair blynedd, byddwn yn cyhoeddi Cynlluniau Corfforaethol treigl pum mlynedd, a fydd yn cyd-fynd ag etholiadau'r Cynulliad Cenedlaethol a newidiadau yn y weinyddiaeth. Byddwn yn cyhoeddi ein Cynllun Busnes bob blwyddyn.'
- Rydym yn anelu at adolygu'r cynllun yn ystod y flwyddyn. Ni fyddwn yn gallu ymgysylltu mor eang ynghylch datblygiad y cynllun ag y gwnaethom yn y flwyddyn gyntaf hon, ond byddwn yn parhau i siarad â'n staff a'n rhanddeiliaid a'u rhwydweithiau, a defnyddio'u gwybodaeth. Byddwn yn parhau i ddefnyddio'r wybodaeth a gasglwyd yn ystod y broses o ymgynghori ar y cynllun hwn, ac yn anelu at gynnal rhagor o ddigwyddiadau â rhanddeiliaid ac ymgynghoriadau cyhoeddus yn y dyfodol.

A fydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn cynnal cynlluniau amaeth-amgylchedd yn y dyfodol? Mae gwneud hynny yn helpu i feithrin perthnasau â'r gymuned ffermio

- Mae hwn yn faes lle y byddwn yn gweithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru. Ar hyn o bryd, nhw sy'n gyfrifol am redeg cynlluniau amaeth-amgylcheddol.

I gloi...

Diolch ichi eto am eich diddordeb yn y modd yr ydym yn cyflawni ein gwaith ar gyfer Cymru – ac am ddarllen yr adroddiad cryno hwn am ganlyniadau ein hymgyngoriad cyhoeddus. Edrychwch ar ein Cynllun Corfforaethol, a gyhoeddwyd erbyn hyn ar ein gwefan, os nad ydych eisoes wedi gwneud hynny. Rydym yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd o'r ymatebion i'r ymgynghoriad â'r cyhoedd ar ffurf adnodd pwysig er mwyn llywio nifer o feysydd o'n gwaith, nid yn unig wrth ysgrifennu ein Cynllun Corfforaethol. Mae'n bosibl y byddwn yn cysylltu â rhai ohonoch yn y dyfodol i fynd ar drywydd yr awgrymiadau a wnaethoch. Dymunwn yn dda ichi yn eich meysydd diddordeb ac yn eich gwaith, a gobeithiwn y byddwch yn parhau i ymgysylltu â ni pan fo'n meysydd gwaith yn cyd-daro.

Atodiad 1 – Rhestr o’r ymatebwyr

Cawsom gyfanswm o 92 ymateb i’n hymgyngoriad ynghylch cynigion ar gyfer ein cynllun corfforaethol cyntaf. Isod ceir rhestr o’r sefydliadau a ymatebodd. Gwnaethom nodi ar ein ffurflen ar gyfer ymateb i’r ymgynghoriad na fyddem yn rhyddhau enwau’r unigolion a ymatebodd. Cafwyd hefyd bedwar cais gan sefydliadau a ofynnodd a allai eu hatebion fod yn gyfrinachol.

Cyfeirnod yr Ymateb	Sefydliad
CP032	Afonydd Cymru a’r Gymdeithas Eogiaid a Brithyll (Cymru)
CP036	Amgueddfa Cymru
CP087	Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
CP014	Bwrdd Iechyd Hywel Dda
CP025	Cadwch Gymru’n Daclus
CP043	Canolfan Chwaraeon Dŵr Genedlaethol Plas Menai / Chwaraeon Cymru
CP064	Canolfannau Cofnodion Lleol Cymru
CP017	CLA Cymdeithas Tir a Busnes Cefn Gwlad
CP029	Coed Cymru Cyf
CP066	Confor – Confederation of Forest Industries (UK) Ltd
CP058	Cragen Llŷn a Môn
CP068	Cronfa Dreftadaeth y Loteri
CP010	Cŵn Tywys Cymru
CP042	Cyd-ffederasiwn Cynhyrchwyr Glo y DU (CoalPro)
CP046	Cyfeillion Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro
CP090	Cymdeithas Genweirio y Rhyl a Llanelwy
CP008	Cymdeithas Genweirwyr Sir Benfro
CP020	Cymdeithas Saethu a Chadwraeth Prydain
CP037	Cymdeithas yr Hostelau Ieuenctid (Cymru a Lloegr)
CP084	Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
CP012	Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful
CP065	Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam
CP053	Cyngor Sir Caerfyrddin
CP056	Cyngor Sir y Fflint
CP005	Cyngor Swydd Gaerloyw
CP082	Y Cyngor Un Blaned
CP009	Cynrychiolydd Grŵp Pysgodfeydd Lleol Gwynedd, Prince Albert Angling Society
CP015	Dinas a Sir Abertawe
CP035	Diverse Cymru
CP054	Dŵr Cymru / Welsh Water
CP063	Coed Cadw (The Woodland Trust)
CP022	Ffederasiwn Diwydiannau Paneli Pren (WPIF)
CP067	Fforwm Amgylcheddol Abertawe
CP006	Fforwm Mynediad Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog

Cyfeirnod yr Ymateb	Sefydliad
CP092	Fforwm Trefol y Deyrnas Unedig ynghylch y Ddynol Ryw a'r Biosffer
CP050	Forestry Valuations
CP038	GeoMôn
CP030	Golygfa Gwydyr (Grŵp Cymunedol)
CP078	Y Grid Cenedlaethol
CP044	Grŵp Siarter Awyr Agored Amgylcheddol Gogledd Cymru – Eryri-Bywiol, sefydliad partner i Gymdeithas Twristiaeth Gweithgareddau Cymru (WATO)
CP069	Gweithgor Rhywogaethau Estron Goresgynnol Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru Llywodraeth Cymru
CP023	Iechyd Cyhoeddus Cymru
CP040	Kronospan Ltd
CP070	Marine Current Turbines
CP055	Natur Cymru Ltd – Sector yr Amgylchedd
CP076	NFU Cymru
CP007	O Ddrws i Ddrws, y Sector Trafnidiaeth Gymunedol
CP026	Y Panel Cyngori ar y Strategaeth Goetiroedd
CP049	Parciau Cenedlaethol Cymru
CP073	Partneriaeth Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol (AHNE) Gŵyr
CP041	Partneriaeth Awyr Agored
CP034	Partneriaeth Bioamrywiaeth Abertawe
CP089	PLANED
CP024	Prifysgol Lerpwl
CP016	Purfa Aberdaugleddau
CP088	Pwyllgor Rheoli Perygl Llifogydd Cymru (FRMW)
CP051	Rhwydwaith Bioamrywiaeth Gogledd-ddwyrain Cymru / Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy
CP062	RSPB Cymru
CP061	Y Sefydliad Daearegol
CP052	Sefydliad Gwy ac Wysg
CP002	Sefydliad Peirianwyr Sifil Cymru (ICE)
CP048	Y Sefydliad Rheoli ac Asesu Amgylcheddol (IEMA)
CP085	Sefydliad Tirwedd Cymru
CP074	Sefydliad y Coedwigwyr Siartredig
CP047	The Open Spaces Society
CP091	Tîm Cadwraeth Natur Dinas a Sir Abertawe
CP027	Undeb Amaethwyr Cymru
CP028	Valero Energy Ltd
CP077	Vattenfall Wind Power Ltd
CP075	Wild Resources Ltd
CP071	WWF Cymru
CP033	Ymddiriedolaeth Afonydd De-Ddwyrain Cymru (SEWRT) a Pysgota Cymru
CP045	Ymddiriedolaeth Afonydd Hafren
CP031	Ymddiriedolaeth Archaeolegol Dyfed
CP021	Ymddiriedolaeth Cadwraeth Ystlumod (Cymru)

Cyfeirnod yr Ymateb	Sefydliad
CP083	Yr Ymddiriedolaeth Camlesi ac Afonydd yng Nghymru
CP086	Ymddiriedolaeth Cwm Elan
CP079	Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol
CP013	Ymgyrch Diogelu Cymru Wledig
CP072	Yr Ymgyrch dros Barciau Cenedlaethol

Atodiad 2 – Y ddogfen ymgynghori a’r ffurflen ymateb

(just copy across or put link, make sure Translation know they don't have to translate this as it already exists bilingually)



**Cyfoeth
Naturiol**
Cymru
**Natural
Resources**
Wales

Os hoffech gael y ddogfen hon mewn fformat arall, ebostiwch:
corporate.planning@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

Cyhoeddwyd gan:
Cyfoeth Naturiol Cymru
Tŷ Cambria
29 Heol Casnewydd
Caerdydd
CF24 0TP

0300 065 3000 (Llun - Gwener, 8am - 6pm)

ymholiadau@cyfoethnaturiolcymru.gov.uk
www.cyfoethnaturiolcymru.gov.uk

© Cyfoeth Naturiol Cymru

Cedwir pob hawl. Gellir atgynhyrchu'r ddogfen hon o gael caniatâd ymlaen llaw gan
Cyfoeth Naturiol Cymru